**Rhif: WG52553**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

# Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith

Mehefin 2025

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-043-0

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Pennod 1: Cyflwyniad | 1 |
| Pennod 2: Ymatebion | 3 |
| Pennod 3: Crynodeb o'r Ymatebion | 5 |

# 1. Cyflwyniad

1.1. Lansiwyd y ddogfen ymgynghori "Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith" ar 19 Medi 2024 ac roedd yn agored i ymatebion tan 13 Rhagfyr 2024. Roedd cyfanswm o 39 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er mwyn hwyluso'r broses ymateb.

1.2. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Mae wedi'i rhannu'n ddwy adran bellach.

1.3. Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

1.4. Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad;
- Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad, lle y bu modd llunio ystadegau;
- Crynodeb a dadansoddiad o'r prif themâu a gododd ym mhob cwestiwn;
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
- Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.

1.5. Wrth ddadansoddi a chrynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- **Eglurhad a geisiwyd ynglŷn â manylion:** Pan ddaw'r broses gydsynio i rym, y bwriad yw y caiff ei hategu gan ganllawiau. Bydd y canllawiau hynny yn ceisio egluro materion manwl a godwyd yn y papur ymgynghori hwn;
- **Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol sydd gerbron Gweinidogion Cymru neu a wnaed ganddynt:** O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses gynllunio, nid oes modd iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniadau y mae'n rhan ohono. Gallai hynny niweidio sefyllfa Llywodraeth Cymru.
- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond a wnaed mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn, gwnaed

ymdrechion i grynhoi o dan y cwestiwn cywir.  Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fydd yn cael ei newid.

## 2. Ymatebion

2.1. Ar 20 Medi 2024, hysbyswyd mwy na 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff eraill a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol ("ACLlau") yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

2.2. Cyflwynwyd 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

2.3. Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oedd yn perthyn. Dengys Tabl 1 isod y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

**Tabl 1 - Dadansoddiad o'r Ymatebwyr**

| Categori | Nifer | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 19 | 26% |
| Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 9 | 13% |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 17 | 23% |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 9 | 13% |
| Y Sector Gwirfoddol | 7 | 10% |
| Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 11 | 15% |
| **Cyfanswm** | **72** | |

2.4. Roedd cwestiynau 1 i 37 yn yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau polisi-benodol. Roedd y cwestiynau yn gofyn am ymateb cadarnhaol, ymateb negyddol neu ymateb cadarnhaol yn amodol ar sylwadau pellach. Roedd y cwestiynau hyn hefyd yn cynnig opsiwn i ymhelaethu ymhellach ar atebion. Cafodd cwestiynau'r ymgynghoriad eu gosod mewn grwpiau ar ddiwedd y penodau yn y ddogfen ymgynghori lle roedd y cynigion polisi roedd y cwestiynau yn ymwneud â nhw yn cael eu trafod.

2.5. Roedd cwestiynau 38 ac 39 yn yr ymgynghoriad yn ymwneud yn benodol â'r effeithiau posibl y gall y broses gydsynio newydd eu cael ar y Gymraeg.

2.6. Ceir trosolwg ystadegol o'r ymatebion, gan ddangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau, fel rhan o'r dadansoddiad i bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen hon. Pan na wnaeth ymatebwyr nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel ‘ddim yn gwybod’. Lle darparodd ymatebwyr sylwadau a bod eu barn yn glir, ond na wnaethant nodi ateb penodol, ystyriwyd bod yr ymatebion hyn naill ai'n cynnig ateb cadarnhaol (yn amodol ar sylwadau pellach) neu'n cynnig ateb negyddol. Lle bo angen, mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif agosaf.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'r categorïau a nodwyd ganddynt yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Lle mae ymatebwyr wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi eu manylion, byddant yn ymddangos fel “Dienw” o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel “Dienw” er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gellir darparu copïau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gais.

## 3. Crynodeb o'r Ymatebion

| C1 | A ydych yn cytuno â'r pwyntiau trosi arfaethedig yn y cyfundrefnau cydsynio presennol? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 7 | 5 | 2 | 5 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 3 | 0 | 3 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 3 | 2 | 0 | 12 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 5 | 1 | 3 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 1 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 2 | 2 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **16** | **17** | **6** | **33** | **72** |

| | Ydw/Ydw yn amodol ar sylwadau | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **33** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **85%** | **15%** |

Themâu allweddol

3.1. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar y pwyntiau trosi arfaethedig.

- Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch meysydd fel gwaith cyn gwneud cais ychwanegol a chyfnodau amser.
- Nid oedd nifer bach o'r ymatebwyr yn fodlon gan eu bod yn pryderu na fyddai gwaith yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i gyfundrefn newydd.

Trosolwg

3.2. Gwnaeth mwy na hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Roedd 13 o ymatebwyr o'r grŵp sector busnesau, y grŵp sector unigol, y grŵp categori eraill, y grŵp sector cyhoeddus ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn fodlon ar y pwyntiau trosi arfaethedig ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eraill yn fodlon ond roeddent am gael eglurder ynghylch materion fel cyfarwyddiadau, trosglwyddo gwaith cyn gwneud cais a dyddiad rheoliadau. Nid oedd nifer bach o'r ymatebwyr yn fodlon gan eu bod o'r farn y dylid trosglwyddo gwaith a wnaed o dan y system bresennol yn awtomatig ac yn pryderu bod y cyfnod trosi gorfodol yn rhy hir. Ceir crynodeb o hyn isod.

*Trosglwyddo gwaith cyn gwneud cais*

3.3. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ganllawiau yn egluro pa waith cyn gwneud cais y gellid ei drosglwyddo i'r gyfundrefn newydd. Gofynnwyd am eglurder hefyd ynghylch y gwaith cyn gwneud cais ychwanegol y gallai fod ei angen ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt. Codwyd pryderon hefyd y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio disgresiwn wrth bennu pa waith y gellid ei drosglwyddo gan y gallai hyn fod yn oddrychol, felly roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai unrhyw waith a wnaed o dan y gyfundrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS) gael ei drosglwyddo'n awtomatig. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd o'r categori grwpiau â buddiant o blaid y pŵer hwn a oedd yn rhoi disgresiwn i ofyn am fwy o wybodaeth, ond argymhellodd y dylai fod yn seiliedig ar gyngor gan weithwyr proffesiynol.

*Cyfnod Trosiannol*

3.4. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid hyblygrwydd y gyfundrefn lle gall ceisyddion ddewis a hoffent gyflwyno datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol (DNS) neu brosiect seilwaith arwyddocaol (SIP) yn ystod y cyfnod trosiannol. Roedd unigolyn o'r categori sector cyhoeddus am gael canllawiau manwl ar faterion trosiannol sy'n annog ceisyddion i barhau â cheisiadau o dan y gyfundrefn bresennol lle y bo'n bosibl. Roedd rhai hefyd am gael eglurhad o ran pryd y byddai'r Rheoliadau yn dod i rym.

3.5. Roedd un ymatebydd o'r categori grwpiau â buddiant yn poeni am yr ansicrwydd a fyddai'n cael ei achosi gan y ffaith y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio disgresiwn i bennu cyfnod trosiannol hirach neu fyrrach. Ond roedd ymatebydd o'r categori sector busnesau o blaid y disgresiwn hwn ond yn awyddus i gael cadarnhad y gellid ei ddefnyddio i ehangu cyfnod prosiectau penodol sy'n agos at benderfyniad ond sydd y tu allan i'r cyfnod o 24 mis. Gofynnodd unigolion o'r categori grwpiau â buddiant a'r categori sector

busnesau hefyd am eglurder ynghylch y gweithgareddau a gaiff eu cynnwys yn y cyfnod trosiannol arfaethedig o 24 mis.

3.6. Codwyd rhai pryderon am hyd y cyfnod. Nododd ymatebydd o'r categori Arall nad oedd y cyfnod trosiannol yn ystyried y camau gweithdrefnol mawr sydd eu hangen gan ystyried felly bod y dyddiad perthnasol yn rhy hwyr. Roedd ymatebydd o'r categori grwpiau â buddiant hefyd o'r farn bod y cyfnod trosiannol gorfodol yn rhy hwyr ac argymhellodd y dylid ystyried ffactorau sbardun eraill er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai prosiectau yn cael eu gadael yn y system flaenorol am gyfnod rhy hir.

3.7. Codwyd rhai pryderon am y baich ar y sector cyhoeddus yn ystod y cyfnod trosiannol, gydag unigolyn o gorff proffesiynol yn cyfeirio at bwysigrwydd gwybodaeth a chanllawiau hygyrch er mwyn sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'r gofynion. Yn ogystal, nododd unigolyn o'r categori grwpiau â buddiant y gallai fod achosion o orgyffwrdd rhwng ceisiadau presennol a cheisiadau newydd sy'n cymhlethu'r cyfnod trosiannol o ganlyniad i ôl-groniadau o ran ceisiadau presennol a phrinder staff.

*Trefniadau Datganoledig*

3.8. Gofynnodd ymatebydd o'r categori sector cyhoeddus am gadarnhad y byddai Cyfarwyddiadau ar gael yn gyhoeddus o hyd gan fod Cyfarwyddiadau ar gyfer y gyfundrefn prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (NSIP) yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio. Nododd ymatebydd o'r categori sector busnesau hefyd nad oedd unrhyw ddarpariaethau trosiannol ar gyfer prosiectau NSIP trawsffiniol a oedd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, felly gofynnwyd am gadarnhad ai Llywodraeth y DU fydd yn parhau'n gyfrifol am yr awdurdodaeth hon.

*Deddfwriaeth Ychwanegol*

3.9. Nododd dau unigolyn nad yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 wedi'i chynnwys yn yr adran ar ddeddfwriaeth berthnasol.

| **C1** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar y pwyntiau trosi arfaethedig a chânt eu rhoi ar waith. Er mwyn hwyluso'r trefniadau ar gyfer symud i'r broses gydsynio newydd, bydd swyddogion yn ystyried dull o symud prosesau cyn gwneud cais a gyflawnwyd eisoes i'r system newydd.<br><br>O ystyried y bydd angen i bartïon baratoi ar gyfer y system newydd, caiff y cyfnod rhwng yr adran y caiff y rheoliadau eu gosod a'r adeg y byddant yn dod i rym ei ystyried. Lle bydd prosiectau yn ddarostyngedig i'r system bresennol, mae'r Ddeddf yn darparu'r gallu i ehangu cyfnod prosiectau penodol sy'n agos at ddyddiad penderfynu. | |

| | |
|---|---|
| **C2** | Yn eich barn chi, pa gyfnod o amser sy'n briodol rhwng yr adeg y caiff rheoliadau eu gosod a'r adeg pan ddaw'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith i rym? |
| **C3** | Faint o amser y bydd ei angen rhwng gwneud y ddeddfwriaeth a'i dwyn i rym i bob rhanddeiliad ddeall y gofynion? |

3.10. Roedd yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau 2 a 3 yn gymharol debyg ac yn tynnu sylw at lawer o'r un pwyntiau. Felly, ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn gyda'i gilydd isod.

Themâu allweddol

3.11. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiynau 2 a 3 fel a ganlyn:

- Nid ymatebodd mwy na hanner yr ymatebwyr i gwestiwn 2 na chwestiwn 3.
- O blith yr ymatebwyr, roedd rhaniad rhwng yr ymatebwyr a oedd o'r farn y dylai'r cyfnod fod yn fyrrach ac eraill a oedd o'r farn y dylai fod yn hirach. Roedd rhai ymatebwyr o blaid y cyfnod trosiannol arfaethedig o 24 mis, neu o blaid pennu cyfnod yn gyffredinol.
- Nid awgrymodd rhai ymatebwyr amserlen gan nad oeddent yn gallu pennu'r amserlen angenrheidiol heb ddealltwriaeth lawn o'r effaith ar randdeiliaid.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am eglurder i gadarnhau y gellid trosglwyddo gwaith sylweddol a wnaed o dan DNS neu y gellid defnyddio disgresiwn i ehangu'r cyfnod ar gyfer prosiectau sydd eisoes yn rhan o'r gyfundrefn DNS ond na fyddai disgwyl iddynt gael cydsyniad tan ar ôl y cyfnod trosiannol.

Trosolwg

*Eglurder, adnoddau a chanllawiau*

3.12. Nid oedd yr ymatebwyr yn gallu argymell cyfnod amser priodol gan nad oeddent yn siŵr beth fyddai'n ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus gydymffurfio ag ef o dan y Rheoliadau, neu y bydd y rhai hynny sy'n gyfarwydd â'r cyfundrefnau presennol yn deall yn gyflymach nag eraill fel perchnogion tir y bydd angen cyfnod amser hirach a chyngor proffesiynol arnynt. Felly mae'n bosibl y bydd y cyfnod amser rhwng pob rhanddeiliad yn amrywio.

3.13. Nododd ymatebydd o'r grŵp categori arall hefyd y byddai angen i'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r amrywiol brosesau addasu ond nododd hefyd fod angen pennu amserlenni diffiniedig ar gyfer y broses ei hun fel y rhai sy'n gysylltiedig â'r broses ar gyfer gorchmynion caniatâd datblygu (DCO). Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r categori sector busnesau fod angen eglurder er mwyn

deall y broses a'r effeithiau ar brosiectau sydd eisoes wedi dechrau. Nododd ymatebydd arall o grŵp â buddiant y dylai gwaith sylweddol a wnaed o dan DNS drosglwyddo'n awtomatig i'r gyfundrefn newydd, ac y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru arfer disgresiwn wrth roi cyfnod hirach i brosiectau sydd eisoes yn rhan o'r gyfundrefn DNS y gellir rhoi cydsyniad iddynt.

3.14. Nododd unigolion o'r categori sector cyhoeddus, y categori sector busnesau, y categori sector eraill a grwpiau gwirfoddol oll fod angen hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau. Mae unigolyn o'r categori sector eraill hefyd o'r farn y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid am gyfnod estynedig.

| C2 a C3 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
| --- | --- |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cyfnod amser sydd ei angen rhwng yr adeg y caiff rheoliadau eu gosod a'r adeg pan ddaw'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith i rym. Ystyrir bod y cyfnod amser a awgrymwyd gan rai ymatebwyr (e.e. pum mlynedd) yn rhy hir, ond byddai cyfnod hirach yn galluogi pob parti i baratoi ar gyfer y system. Caiff canllawiau hefyd eu llunio er mwyn cefnogi'r broses gyflwyno. | |

| C4 | Pa ddarpariaethau eraill y dylid eu cyflwyno i'w gwneud yn bosibl i brosiectau symud i'r system newydd? |
| --- | --- |

Themâu allweddol

3.15. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:

- Y prif ddarpariaethau y gofynnwyd amdanynt oedd adnoddau fel hyfforddiant, canllawiau ac is-ddeddfwriaeth.
- Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch pa waith fyddai'n trosglwyddo i'r gyfundrefn newydd a nodwyd rhai pryderon am bwerau Gweinidogion Cymru.

Trosolwg

3.16. Gwnaeth tua hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Gofynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am adnoddau fel hyfforddiant, canllawiau ac is-ddeddfwriaeth/ rheoliadau. Un o'r prif themâu oedd ceisiadau am eglurhad o ran pa waith y byddai modd ei drosglwyddo i'r gyfundrefn newydd. Er bod ymatebwyr o blaid y drefn hon, roedd pryderon na fyddai modd trosglwyddo pob darn o waith. Roedd nifer bach hefyd am i ddatblygiadau trawsffiniol gael eu cydnabod gan nodi pryderon ynglŷn â'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu cyfnod trosiannol hirach neu fyrrach. Ceir crynodeb o hyn isod.

3.17. Un o'r prif geisiadau oedd y cais am ganllawiau. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â'r canlynol:

- Rhanddeiliaid.

- Y sector cyhoeddus.
- Ymgyngoreion.
- Datblygwyr.
- Cymunedau.
- Ceisiadau.
- Gofynion gwaith cyn gwneud cais ar gyfer y gyfundrefn newydd.
- Prosiectau a fydd yn aros fel rhan o'r gyfundrefn bresennol.
- Gwaith a gaiff ei drosglwyddo o'r gyfundrefn DNS.

3.18. Darpariaeth arall gyffredin y gofynnwyd amdani oedd is-ddeddfwriaeth yn sgil pryderon bod yr iaith bresennol yn y Ddeddf wrth gyfeirio at gyfarwyddiadau a gwaith y gellir ei drosglwyddo i'r gyfundrefn newydd yn amwys. Gofynnwyd am ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- Meini prawf cyfarwyddiadau Adran 22
- Y broses cyn gwneud cais, er mwyn deall y gofynion ar gyfer gallu trosglwyddo gwaith
- Yr amgylchiadau lle na fydd modd trosglwyddo gwaith o bosibl
- Eglurder o ran sut y gellir cyfrif gwaith a wnaed eisoes yn erbyn gofynion statudol

3.19. Yn ogystal, gofynnodd rhai ymatebwyr am sesiynau hyfforddi a nodwyd bod recriwtio aelodau ychwanegol o staff i gyrff llywodraethol yn allweddol er mwyn rhoi'r gyfundrefn newydd ar waith. Nododd unigolyn o'r categori sector eraill fod angen ymgynghori ar ddatganiadau Polisi Seilwaith a'u cyhoeddi cyn i'r gyfundrefn newydd ddod i rym, ac argymhellodd ymatebydd o'r categori sector busnesau y dylid cyhoeddi unrhyw Reoliadau, canllawiau neu ddatganiadau ar yr un pryd er mwyn rhoi sicrwydd. Roedd y darpariaethau eraill y gofynnwyd amdanynt yn cynnwys gwasanaeth cyngor anffurfiol, gwasanaeth cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru gadarnhau o fewn cyfnod amser byr a gaiff datblygiad ei gyfeirio fel SIP.

3.20. Yn olaf, nododd ymatebydd o'r categori sector cyhoeddus bryderon nad oedd y Ddeddf yn cydnabod partneriaethau traws-wladol a thraws-ranbarth sy'n caniatáu datblygiadau trawsffiniol. Yn ogystal, gofynnodd un ymatebydd o'r categori unigol am fwy o waith ymchwil a gofynnodd ymatebydd arall o'r un categori am fwy o hysbysiadau lleol.

*Cyfnod Trosiannol*

3.21. Cododd ymatebydd o'r categori sector busnesau bryderon y gall Gweinidogion Cymru bennu cyfnod trosiannol hirach neu fyrrach, felly gofynnwyd am sicrwydd mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai'r disgresiwn hwn yn cael ei gymhwyso. Fodd bynnag, roedd ymatebydd o'r categori sector eraill o'r farn y byddai'n ddefnyddiol diwygio'r darpariaethau trosiannol er mwyn gallu gwneud penderfyniad mewn perthynas â datblygiad o dan y broses bresennol, ar yr amod bod y pwynt trosiannol wedi'i gyrraedd. Dewis amgen arall a gynigiwyd oedd y gellid ehangu'r cyfnod trosiannol a chyhoeddi canllawiau sy'n nodi pryd y bydd Gweinidogion Cymru yn darparu estyniadau wedi'u teilwra'n benodol i'r cyfnod trosiannol.

| C4 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu hyfforddiant a chanllawiau i hwyluso'r broses o drosi i'r system newydd. Byddent yn ymdrin â throsglwyddo gwaith, yn ogystal â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gweithredu'r system newydd, gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y byddai gan Weinidogion Cymru bwerau.

| C5 | A ydych yn cytuno â'r prosiectau y gellir eu cyfarwyddo, a'u trothwyon cyfatebol? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 2 | 7 | 7 | 3 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 3 | 2 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 2 | 0 | 13 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 4 | 0 | 5 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 2 | 0 | 4 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **10** | **21** | **11** | **30** | **72** |

| | Ydw/Ydw yn amodol ar sylwadau | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **31** | **11** |
| **Canran Gyffredinol** | **74%** | **26%** |

<u>Themâu allweddol</u>

3.22. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:

- Gwnaeth mwy na hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.
- Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y prosiectau y gellir eu cyfarwyddo, ond cododd rhai bryderon am y trothwyon neu gofynnwyd am fwy o eglurder a chanllawiau. Awgrymodd rhai hefyd dechnolegau ychwanegol.
- Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno'n llwyr â'r trothwyon. Nodwyd pryderon hefyd am y trothwyon dewisol a nododd rhai bryderon am gyfrinachedd ceisiadau am Gyfarwyddiadau.

<u>Trosolwg</u>

*Trothwyon*

3.23. Roedd rhywfaint o gefnogaeth gan ymatebwyr o blaid defnyddio trothwyon, gan gefnogi eu hehangder a'u hyblygrwydd, ond roedd pryderon o ran y ffaith bod rhai o'r trothwyon yn rhy isel. Nododd nifer bach o'r ymatebwyr fod solar ffotofoltäig ac adeiladu priffordd barhaus yn rhy isel. Roedd pryderon hefyd bod cwmpas Cyfarwyddiadau yn rhy gul, a allai arwain at fethu mathau eraill o seilwaith mewn meysydd perthnasol gan y ddau gategori.

3.24. Fodd bynnag, roedd gan nifer bach o'r ymatebwyr bryderon am ddefnyddio'r trothwyon yn gyffredinol, gan nodi y dylid gwneud penderfyniad ar Gyfarwyddyd yn seiliedig ar ei rinweddau, yn hytrach na maen prawf penodol. Argymhellodd ymatebydd o'r categori sector busnesau y dylid darparu dosbarthiadau o brosiectau y gellir eu cyfarwyddo, yn debyg i Adran 35 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn hytrach na throthwyon. Roedd ymatebydd o ACLl hefyd o'r farn na fyddai is-drothwyon yn ddefnyddiol gan y gallent ganiatáu i ddatblygwyr fwrw ati gan ddefnyddio gwahanol gynlluniau cydsynio pe byddent yn cael adborth negyddol yn ystod y cam cyn gwneud cais.

3.25. Yn ogystal, nododd pum ymatebydd o'r categori sector busnesau, un o'r categori grwpiau â buddiant ac un o'r categori sector eraill y bydd y trothwyon yn anghyson â throthwyon Lloegr. Cafwyd pryderon gan ymatebwyr yn y categori sector eraill a'r categori sector busnesau am y ffaith bod cynlluniau BESS wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn newydd, ond y bydd llwybr y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn cael ei ddefnyddio o hyd yn Lloegr. Argymhellwyd y dylid sicrhau cysondeb ar draws y gwledydd datganoledig gan mai'r bwriad yw cynyddu'r trothwyon ar gyfer gorchmynion caniatâd datblygu a phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Nodwyd hefyd fod y trothwyon ar gyfer llinellau trydan uwchben yn rhy rhagnodol ac nad ydynt yn gymesur â Deddf Trydan 1989.

3.26. At hynny, roedd ymatebwyr o'r categori cyrff proffesiynol, y categori sector eraill, y categori grwpiau gwirfoddol a'r categori sector busnesau o'r farn bod angen egluro rhywfaint o'r derminoleg yn y ddeddfwriaeth, yn enwedig mewn perthynas â throthwyon a Chyfarwyddiadau. Roedd hyn oherwydd pryderon o ran amwysedd ac y gallai penderfyniadau fod yn oddrychol. Nododd unigolyn

o ACLl hefyd nad oedd yn glir a oedd storio ynni yn gyfystyr â chynhyrchu ynni o dan Ran 1 o'r Ddeddf.

3.27. Yn ogystal, argymhellodd ymatebwyr o'r categori sector busnesau, o'r categori grwpiau gwirfoddol ac o'r categori grwpiau â buddiant y dylid cynnwys seilwaith ychwanegol yn y trothwyon fel ceblau tanddaearol (yn enwedig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu), NETs a'u seilwaith cysylltiedig, seilwaith alltraeth allweddol, cyfleusterau peryglus, cysylltiadau grid gwynt alltraeth. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch prosiectau sydd wedi'u cydleoli.

*Trothwy Dewisol*

3.28. Roedd ymatebydd o'r categori cyrff proffesiynol ac un o'r categori sector busnesau yn poeni y gallai'r trothwy dewisol achosi amwysedd. Roedd ymatebydd o grŵp â buddiant o'r un farn, ac yn poeni y byddai'n achosi ansicrwydd i berchnogion tir a thirfeddianwyr gan fod rhoi Cyfarwyddyd yn golygu bod posibilrwydd y caiff tir ei gaffael drwy ddulliau gorfodol, nad oedd yn wir yn achos y gyfundrefn bresennol. Roedd felly o'r farn y dylai'r darpariaethau gynnwys eithriad er mwyn atal hyn i sicrhau na all datblygwyr gamarwain neu ddefnyddio'r ansicrwydd hwn er budd iddynt wrth negodi.

*Canllawiau*

3.29. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am eglurder a chanllawiau ar gyfer prosiectau a throthwyon gan eu bod o'r farn bod cwmpas y trothwyon yn eang ac yn ansicr ac anghyson mewn rhai achosion. Gofynnwyd am ganllawiau mewn perthynas â'r canlynol:

- Y meini prawf ar gyfer cyfarwyddo prosiect
- Nodweddion disgwyliedig prosiectau datblygu
- A fyddai solar ffotofoltäig yn cael ei drin fel AC neu DC ar gyfer y trothwy cynhyrchu alltraeth ar 50MW
- Pam y cafodd y trothwyon penodol eu dewis
- Sut y byddai prosiectau yn cael eu hasesu fel prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol
- Y datblygiadau posibl a fyddai'n perthyn i bob categori
- Y weithdrefn ar gyfer prosiectau sy'n dod yn rhan o'r broses ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol ar ôl cael eu cyflwyno i'r ACLl

3.30. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr eraill o ACLl, y categori sector busnesau a'r categori sector eraill bryderon ynghylch nodi lefelau'r trothwyon mewn canllawiau, gan argymell yn lle hynny, y dylid eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi mwy o eglurder a gallu eu diweddaru dros amser i adlewyrchu datblygiadau yn y dyfodol. Nodwyd hefyd nad oedd yn glir pam bod rhai trothwyon wedi'u dynodi yn Adran 10 o'r Ddeddf, ond nid eraill. Argymhellodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid creu datganiadau polisi ar gyfer seilwaith yn debyg i'r datganiadau Polisi Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Lloegr.

*Disgresiwn*

3.31. Roedd unigolyn o'r sector gwirfoddol yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu defnyddio eu disgresiwn i alw prosiectau seilwaith arwyddocaol i mewn ond roedd yn teimlo y dylid nodi hynny naill ai mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi sicrwydd. Yn ogystal, roedd ymatebydd o grŵp gwirfoddol o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru allu galw Cydsyniad Seilwaith i mewn lle bydd llawer o brosiectau bach wedi'u lleoli mewn un ardal neu os bydd prosiect bach yn cael effaith sylweddol ar safle natur, ased treftadaeth neu safle arall pwysig.

*Cyfarwyddiadau*

3.32. Roedd ymatebydd o'r categori sector eraill o blaid rhoi'r gallu i ddatblygwyr wneud cais am gyfarwyddiadau. Cododd ymatebwyr o'r categori sector busnesau a'r categori grwpiau â buddiant bryder o ran a fyddai datblygwyr a fyddai'n cyflwyno cais am Gyfarwyddyd er mwyn i Weinidogion ymgynghori arno yn gallu gwneud hynny'n gyfrinachol gan fod ceisiadau o'r fath yn aml yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif. Roedd ymatebydd arall o grŵp â buddiant o'r farn y dylid rhoi pŵer i Weinidogion Cymru optio allan o gyfarwyddiadau lle bydd pob parti yn cytuno y byddai'n fwy priodol rhoi cydsyniad ar lefel leol neu i broses i eithrio cynlluniau na fyddent yn ddymunol gael ei chynnwys yn y gyfundrefn cydsyniad seilwaith. Yn yr un modd, mae ymatebydd o'r categori sector busnesau o'r farn y dylid cynnig y cyfle i ddatblygwyr gyflwyno achos o ran pam y dylai prosiect fynd rhagddo o dan gyfundrefn gydsynio benodol.

*Amserlen*

3.33. Nododd ymatebydd o'r categori sector busnesau ei bod hi'n hanfodol y gellir cyflawni'r amserlen ceisiadau o 28 diwrnod er mwyn osgoi achosion o oedi a sicrhau cysondeb. Nododd ymatebwyr eraill hefyd fod angen i'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau mewn perthynas â Chyfarwyddiadau fod yn statudol ac yn fwy tryloyw.

| **C5** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| O ystyried y gefnogaeth gyffredinol gan ymatebwyr, bydd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gaiff eu cyfarwyddo o bosibl i mewn i'r system yn seiliedig ar y papur ymgynghori. Nodwyd prosiectau ychwanegol y gallai fod cyfiawnhad dros eu cyfarwyddo gan yr ymatebwyr, ac felly byddwn yn anelu at ehangu'r cwmpas i gynnwys y prosiectau hynny nas cwmpesir gan gategorïau presennol. Rydym yn cydnabod bod sicrwydd yn bwysig i'r diwydiant a byddwn yn ystyried sut y gall y broses ar gyfer gwneud cyfarwyddiadau gyfyngu'r pŵer er mwyn peidio â chreu ansicrwydd i brosiectau, ond gan ar yr un pryd ganiatáu hyblygrwydd i gyflwyno prosiectau newydd i mewn i'r system fel sy'n ofynnol. | |

| **C6** | Pa dechnolegau newydd neu wreiddiol eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y Ddeddf a ddylai gael eu rhestru, a beth yw'r trothwy cyfatebol? |
|---|---|

Themâu allweddol

3.34. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 6 fel a ganlyn:

- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w gwneud mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.
- O blith y rhai a ymatebodd, argymhellwyd technolegau ychwanegol fel technolegau'r llanw a chanolfannau data.
- Cododd ymatebwyr eraill bryderon am y trothwyon a soniodd rhai sut y gellid defnyddio'r Rheoliadau i gynnwys technolegau newydd yn y dyfodol.

Trosolwg

3.35. Gwnaeth dros draean yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau. Argymhellodd nifer o'r ymatebwyr dechnolegau ychwanegol, ond roedd rhai o'r farn na ddylid rhestru unrhyw dechnolegau ychwanegol. Ceir crynodeb o hyn isod.

*Technolegau Ychwanegol*

3.36. Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr dechnolegau ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:

- Generaduron wedi'u pweru gan y llanw
- Pŵer môr-lynnoedd llanw.
- Paneli solar arnofiol.
- Canolfannau data.
- Ceblau trydan tanfor a cheblau trydan tanddaearol cysylltiedig ar y tir.
- Dal, defnyddio a storio carbon.
- Cyfleusterau storio ynni, e.e. systemau storio ynni batris.
- Technolegau hybrid, e.e. gwynt a hydrogen alltraeth arnofiol.
- Llosgwyr/ safleoedd nwyeiddio mawr.
- Storio Ynni am Gyfnodau Hir.
- Cynhyrchu hydrogen.
- Seilwaith cludo a storio hydrogen.

*Trothwyon*

3.37. Cododd rhai bryderon am y ffaith bod BESS wedi'i gynnwys yn y gyfundrefn ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol, y ffaith bod y trothwyon yn wahanol i Loegr ac y gallai'r canllawiau ar drothwyon fod yn rhy eang. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn y dylid pennu haenau ar gyfer y trothwyon neu ddarparu dosbarthiadau prosiectau diffiniol yn lle hynny er mwyn sicrhau y gellid ystyried technolegau newydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn y gellid defnyddio canllawiau cyfredol a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi technolegau newydd. Er enghraifft, roedd unigolyn o grŵp gwirfoddol o'r farn y gallai'r canllawiau ddatgan y byddai technolegau nas rhestrwyd yn cael eu hasesu a'u cynnwys yn y gyfundrefn uwchlaw trothwy penodol.

*Diffiniadau ac Eglurhad*

3.38. Argymhellodd ymatebydd o'r categori grwpiau â buddiant y byddai diffiniad o dechnoleg newydd yn y Ddeddf o bosibl yn fwy priodol gan na fyddai rhestr a gaiff ei hysgrifennu heddiw o reidrwydd yn cynnwys technoleg y dyfodol. Nododd unigolyn o'r categori sector busnesau hefyd nad oedd yn glir a oedd canolfannau data wedi'u cynnwys yn y diffiniad presennol o dechnoleg newydd. Os nad oeddent, dylid eu cynnwys yn y llwybr Cyfarwyddyd dewisol a dylid seilio'r trothwy ar feini prawf strategol yn erbyn anghenion cenedlaethol yn hytrach na metrig diffiniedig. Gofynnodd eraill hefyd am eglurder o ran sut y byddai elfennau hydrogen electrolytig yn cael eu trin pan fyddent yn rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol, a sut y byddai Adweithyddion Modiwl Bach yn cael eu trin yn y broses cydsyniadau seilwaith. Gofynnwyd hefyd a gaiff hydrogen ei drin fel datblygiad cysylltiedig pan fydd ffynonellau cynhyrchu ynni a throthwyon niferus yn berthnasol. Nododd rhai hefyd y dylid ychwanegu llinellau trydan tanddaearol i'r meini prawf ar gyfer llinellau uwchben.

| C6 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Bydd y llywodraeth yn anelu at gynyddu'r mathau o brosiectau y gellir eu cyfarwyddo i mewn i'r system. O blith y rhai a awgrymwyd, byddai nifer eisoes yn addas ar gyfer y categorïau a gynigiwyd yn y papur ymgynghori ac rydym o'r farn y gall canllawiau ategol helpu i egluro hyn. | |

| C7 | A ydych yn cytuno â'r cydsyniadau y gellir eu diddymu neu eu tybio? Os nad ydych yn cytuno, pa gydsyniadau y dylid eu hychwanegu neu eu dileu? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 2 | 6 | 1 | 10 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 0 | 1 | 3 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 2 | 0 | 13 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 2 | 1 | 5 | 9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 1 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 1 | 2 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **13** | **12** | **6** | **41** | **72** |

| | Ydw/Ydw yn amodol ar sylwadau | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **25** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **81%** | **19%** |

Themâu allweddol

3.39. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 7 fel a ganlyn:

- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw ymateb i'r cwestiwn hwn.
- Roedd nifer mawr o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno â'r rhestr o gydsyniadau neu'n cytuno'n amodol ar sylwadau pellach. Roedd y sylwadau hynny naill ai'n ymwneud â chydsyniadau penodol y dylid eu hystyried ymhellach neu eu heithrio o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith neu'r dull cyffredinol y dylid ei ddefnyddio i dybio neu ddiddymu cydsyniadau.
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r rhestr o gydsyniadau. Wrth egluro eu rhesymau dros anghytuno, gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau sy'n berthnasol i'r broses gydsynio yn gyffredinol, anghytuno â'r egwyddor o dybio neu ddiddymu cydsyniadau neu roi enghreifftiau penodol o gydsyniadau y dylid eu hystyried ymhellach yn eu barn nhw.

Trosolwg

3.40. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno â'r cydsyniadau i'w tybio neu eu diddymu neu nid oedd ganddynt unrhyw ymateb na sylwadau i'w gwneud yn hyn o beth. Gwnaed sylwadau am gydsyniadau penodol y dylid eu heithrio o'r rhestr, yn gofyn i gydsyniadau penodol gael eu cynnwys, i gydsyniadau penodol gael eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth gywir neu'n holi am agweddau penodol ar y broses ar gyfer tybio neu ddiddymu cydsyniadau penodol. Er enghraifft, yn holi pam nad oedd cydsyniad ar gyfer trwyddedu morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a SDCau wedi'i gynnwys yn y rhestrau a ddarparwyd yn y papur ymgynghori. Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion polisi yn gwrthwynebu'r egwyddor yn gyffredinol neu'n gwrthwynebu materion a oedd yn berthnasol i'r broses gydsynio yn gyffredinol, fel ymgysylltu â'r

gymuned, neu'n gwneud hynny gan nad oedd trefniadau cydsynio penodol wedi'u cynnwys, fel esemptiadau gwastraff.

| C7 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Rydym yn falch i weld, ar y cyfan, bod pobl o blaid y trefniadau cydsynio penodol y gellir eu tybio neu eu diddymu o dan y broses gydsynio newydd. Drwy wneud hynny, bydd yn sicrhau bod y system yn addas at y diben wrth ystyried cydsyniadau perthnasol i brosiect seilwaith arwyddocaol fel rhan o un cais, gan arbed amser a lleihau achosion o ddyblygu. Cyfeiriodd ymatebwyr at drefniadau cydsynio penodol y dylid eu cynnwys neu na ddylid eu cynnwys yn y broses gydsynio newydd. O ran rhai cydsyniadau penodol yr holwyd a ddylid eu cynnwys, mae trwyddedau morol eisoes wedi'u tybio o dan adran 83 o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024, felly nid oes angen gwneud darpariaeth bellach yn yr is-ddeddfwriaeth. Nid oes angen cydsyniad o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (cydsyniad SuDS) o ganlyniad i baragraff 11 o Atodlen 3, ond caiff ystyriaethau draenio eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau seilwaith.<br><br>Cafodd y rhestr o gydsyniadau yr ymgynghorwyd arnynt ei thrafod ymhellach ag arweinwyr polisi perthnasol y Llywodraeth a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am roi'r cydsyniadau hynny, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Caiff y rhestr derfynol ei mireinio o ganlyniad i'r trafodaethau hynny, gan ystyried y sylwadau a wnaed ar gydsyniadau penodol, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau ac amser er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni'n effeithiol. Byddai opsiynau i ystyried proses tracio paralel ar gyfer rhai cydsyniadau penodol â gorchymyn cydsyniad seilwaith lle na ellir eu cynnwys ar hyn o bryd yn y broses gydsynio yn cynnig manteision tebyg, a gellid cynnal adolygiadau pellach ar gydsyniadau na ellir eu cynnwys yn y broses ar hyn o bryd yn ystod y cam gweithredu. | |

| **C8** | Pa gydsyniadau a ddylai gael eu diddymu neu eu tybio gyda chydsyniad y corff perthnasol yn unig? |
|---|---|

Trosolwg a themâu allweddol

3.41. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw ymateb i gwestiwn 8. O'r rhai hynny a ymatebodd, roedd eu sylwadau yn fwy perthnasol i'r broses gydsynio yn gyffredinol (fel ymgyngoriadau ategol a chwestiynau am ddatblygiadau trawsffiniol) neu'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan y corff cydsynio presennol ran i'w chwarae mewn trefniadau cydsynio penodol (er enghraifft, Cadw mewn perthynas â chydsyniadau treftadaeth).

| C8 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Rydym yn cydnabod y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ond lle bo'r materion a godwyd yn berthnasol i'r broses gydsynio ehangach, ymdrinnir â nhw mewn mannau eraill, er enghraifft, ymgysylltu â'r gymuned. O ran datblygiadau trawsffiniol, mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn glir bod angen cydsyniad seilwaith pan fydd rhan o ddatblygiad yng Nghymru a gellir llunio canllawiau ar y mater hwn maes o law os ystyrir bod angen gwneud hynny. Rydym yn cydnabod yn llawn y rôl bwysig y mae cyrff cydsynio yn ei chwarae o ran trefniadau cydsynio penodol a byddwn yn gweithio gyda'r cyrff hynny i sicrhau bod y trefniadau gweithredol yn gyson.

I'r mwyafrif helaeth o'r cydsyniadau a allai fod yn berthnasol, os nad pob un ohonynt, mae'r cyrff cydsynio presennol perthnasol naill ai'n rhan o Lywodraeth Cymru neu CNC. Mae gwaith ymgysylltu eisoes wedi'i gynnal gyda'r cyrff perthnasol i drafod eu trefniadau cydsynio a ph'un a gânt eu tybio neu eu diddymu o dan y broses gydsynio newydd, gan gynnwys Cadw a CNC. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod y corff cydsynio perthnasol yn cytuno'n llawn ag unrhyw drefniadau cydsynio sy'n berthnasol i'r broses gydsynio newydd a bod y prosesau ar gyfer cydsynio seilwaith a chynnwys trefniadau cydsynio fel rhan o'r broses yn gweithredu'n effeithiol.

| **C9** | A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol a gynigir ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 3 | 10 | 2 | 4 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 4 | 1 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 3 | 4 | 0 | 10 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 6 | 1 | 1 | 9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| E | Y Sector Gwirfoddol | 2 | 2 | 0 | 3 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **14** | **29** | **6** | **23** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **43** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **88%** | **12%** |

Themâu allweddol

3.42. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 9 fel a ganlyn:

- Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y dull gweithredu a gynigir ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais.
- Gofynnodd yr ymatebwyr am eglurhad ar nifer o faterion, fel sut y byddai gwybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei thrin, sut y gellid cael gwasanaethau gwneud cais ar gyfer datblygiadau trawsffiniol a sut y gellir cael cyngor gan wahanol gyrff.
- Nodwyd pryderon o ran y cyfnod arfaethedig o 28 diwrnod ar gyfer darparu ymateb i gais am wasanaethau cyn gwneud cais. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen hon yn rhy fyr ac y dylid ei hehangu.

Trosolwg

3.43. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull a gynigiwyd ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais fel rhan o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith, gan nodi y bydd pennu allbynnau sylfaenol yn galluogi ceisyddion i fanteisio i'r eithaf ar y broses. Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno, gwnaed sawl sylw mewn perthynas â'r cynigion, a nodir isod.

*Yr amserlenni ar gyfer ymateb i geisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais*

3.44. Cododd sawl ymatebydd o'r sector gwirfoddol, Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) a'r categori sectorau eraill bryderon am y cyfnod arfaethedig o 28 diwrnod ar gyfer ymateb i gais am wasanaethau cyn gwneud cais.

3.45. Nodwyd nad oedd yn ddigon o amser i ddarparu ymateb ystyrlon, yn enwedig ar gyfer y datblygiadau arfaethedig hynny sy'n fwy cymhleth. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid ehangu'r cyfnod arfaethedig i 42 neu 56 diwrnod, neu y dylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd o fewn is-ddeddfwriaeth er

mwyn gallu caniatáu estyniadau amser i bob corff sy'n darparu gwasanaethau cyn gwneud cais.

*Materion gweithdrefnol ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais*

3.46. Roedd ymatebydd o'r categori sector busnesau o'r farn y byddai'n symlach i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) gydlynu gwasanaethau cyn gwneud cais, gydag un cais yn cael ei gyflwyno, yn hytrach na'r opsiwn o wneud cais am wasanaethau gan un neu ddau o'r cyrff neu'r tri chorff sy'n darparu gwasanaethau o'r fath.

3.47. At hynny, honnodd sawl ymatebydd arall o'r categori sector busnesau, yn ogystal â chorff proffesiynol, fod angen sicrhau atebolrwydd o ran darparu cyngor ystyrlon fel rhan o wasanaethau cyn gwneud cais. Awgrymwyd y dylai'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau o'r fath orfod cyflwyno adroddiad blynyddol, yn nodi pa gyngor y maent wedi'i ddarparu ac a wnaed hynny o fewn yr amserlenni penodedig.

3.48. Codwyd pryderon hefyd y gellir gwrthod cais am gyfarfod cyn gwneud cais heb fod angen unrhyw gyfiawnhad a nododd sawl ymatebydd y dylid rhoi cyfiawnhad rhesymegol i geisyddion pan fyddant wedi gwneud cais am gyfarfod ac y caiff y cais hwnnw ei wrthod.

3.49. O ran ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais, awgrymodd un o Asiantaethau'r Llywodraeth y dylid cyfyngu ceisiadau statudol i un fesul datblygiad, er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond pan fydd prosiect wedi'i ddatblygu'n ddigonol y caiff ceisiadau eu gwneud.

*Gwybodaeth fasnachol sensitif*

3.50. Cododd tri ymatebydd o'r categori sector busnesau bryderon ynghylch diogelu gwybodaeth fasnachol sensitif a'r gallu i beidio â'i chyhoeddi ar gofrestr gyhoeddus yn y lle cyntaf. Heb hyn, nodwyd y byddai'n golygu na fyddai datblygwyr yn awyddus i ddefnyddio'r gwasanaethau nac yn barod i ymgysylltu.

*Eglurhad ar faterion penodol*

3.51. Er eu bod o blaid y gofynion arfaethedig, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o eglurhad ar faterion penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyn gwneud cais. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Sut y byddai gwasanaethau cyn gwneud cais yn gweithredu ac yn cael eu cydlynu'n ymarferol ar gyfer prosiectau trawsffiniol, neu'r rhai hynny sy'n berthnasol i fwy nag un Cyd-bwyllgor Corfforedig;
- A oes gofyniad statudol i geisyddion ymgysylltu â phob corff sy'n cynnig gwasanaethau cyn gwneud cais;
- Sut gall ceisyddion gael cyngor gan gyrff lluosog.

Awgrymwyd y gellid darparu eglurhad o'r fath drwy is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau.

*Sylwadau eraill*

3.52. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Annog ymgysylltu cynnar â Chomisiwn Dylunio Cymru;
- Nodi Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel ymgyngoreion arbenigol;
- Pennu ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais ar lefel genedlaethol yn hytrach nag ar ddisgresiwn ACLlau unigol;
- Sicrhau tryloywder yn y broses er mwyn i geisyddion allu deall yn glir y lefel ymgysylltu y gallant ei disgwyl;
- Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ACLlau a CNC ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais ystyrlon.

3.53. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais, roedd rhai ymatebwyr nad oeddent yn cytuno. Er enghraifft, nododd un ymatebydd fod y broses yn cael ei rhuthro ac nad yw'n ddemocrataidd, ac yn dangos ffafriaeth tuag at ddatblygwyr ar draul cymunedau lleol a'r amgylchedd.

| **C9** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|

*Yr amserlenni ar gyfer ymateb i geisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais*

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch yr amserlenni arfaethedig ar gyfer ymateb i geisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais ac er mwyn helpu i sicrhau y gellir rhoi cyngor ystyrlon, byddwn yn ceisio cynyddu'r cyfnod arfaethedig o 28 diwrnod i 42 diwrnod.

*Materion gweithdrefnol ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais ac eglurhad ar faterion eraill*

Cafwyd nifer o ymatebion yn gofyn am wybodaeth ac eglurhad ychwanegol am y gofynion gweithredol ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais a gallwn gadarnhau y caiff canllawiau manwl eu darparu fel rhan o gam gweithredu'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith.

*Gwybodaeth fasnachol sensitif*

Nodwn hefyd y sylwadau a gafwyd am wybodaeth fasnachol sensitif. Mae un o nodau'r broses gydsynio yn annog ymgysylltu cynnar a thrafodaethau cyn gwneud cais, felly rydym yn ymrwymedig i sicrhau na fydd unrhyw beth yn atal darpar geisyddion rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Felly, byddwn yn ceisio cynnwys mesurau mewn is-ddeddfwriaeth a all ohirio'r broses o gyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif ar gofrestrau cyhoeddus am gyfnod penodedig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder, bydd yn ofynnol i

ddarpar geisyddion ddarparu cyfiawnhad rhesymegol dros ohirio'r broses o gyhoeddi gwybodaeth ar gofrestrau a bydd rhagdybiaeth o hyd y caiff y wybodaeth ei chyhoeddi.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth, byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir dynodi'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd â gwasanaethau cyn gwneud cais, er mwyn sicrhau bod yn rhaid rhoi rheswm dros wrthod cais am gyfarfod.

**Y camau nesaf**

Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion i gyflwyno gwasanaethau cyn gwneud cais fel rhan o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bellach i sut y gellir defnyddio'r broses o ddrafftio is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi canllawiau i ymdrin â'r materion a nodir uchod yn 'Ymateb y Llywodraeth' er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu clir a chyson.

| | |
|---|---|
| **C10** | A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig a bennir ar gyfer Gweinidogion Cymru, ACLlau a CNC o ran darparu gwasanaethau cyn gwneud cais? Os nad ydych yn cytuno, a ddylid ychwanegu neu ddileu unrhyw ofynion? |

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 7 | 1 | 7 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 4 | 2 | 2 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 2 | 1 | 12 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 3 | 0 | 3 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 3 | 1 | 0 | 3 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 1 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **18** | **18** | **5** | **31** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **36** | **5** |
| **Canran Gyffredinol** | **88%** | **12%** |

Themâu allweddol

3.54. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 10 fel a ganlyn:

- Ni ddylai fod yn ofynnol i ACLlau gytuno ar Ddatganiad Tir Cyffredin yn ystod y cam cynnar hwn.
- Dylai CNC hefyd gynnig gwybodaeth amgylcheddol arall a allai helpu datblygwyr i asesu'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd.
- Nodwyd pryderon o ran y cyfnod arfaethedig o 28 diwrnod ar gyfer darparu ymateb i gais am wasanaethau cyn gwneud cais. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen hon yn rhy fyr ac y dylid ei hehangu.

Trosolwg

3.55. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau cyn gwneud cais, yn amodol ar y sylwadau canlynol:

*Datganiadau Tir Cyffredin*

3.56. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr o'r sector busnesau, ACLlau ac asiantaethau'r llywodraeth sylwadau yn nodi y dylid dileu'r gofyniad i ACLlau a CNC ddarparu manylion am unrhyw ddatganiadau tir cyffredin posibl o'r gofynion sylfaenol. Ystyriwyd ei bod yn annheg gofyn amdanynt ar gam mor gynnar o'r broses ddatblygu, heb feddu ar fanylion llawn cynnig.

*Yr amserlenni ar gyfer ymateb*

3.57. Yn debyg i gwestiwn 9, awgrymodd nifer mawr o ymatebwyr o bob sector fod y cyfnod arfaethedig o 28 diwrnod i gyrff ymateb i gais am wasanaeth cyn gwneud cais yn rhy fyr ac nad oedd yn gyfnod realistig i allu rhoi cyngor ystyrlon. Cytunwyd yn gyffredinol y dylid ehangu'r cyfnod hwn i 42 diwrnod.

*Lefel y wybodaeth a ddarperir gyda gwasanaethau cyn gwneud cais*

3.58. Cyflwynodd sawl ymatebydd sylwadau ar lefel y wybodaeth a ddarperir ar y cyd â chais am wasanaethau cyn gwneud cais, yn ogystal â lefel yr ymatebion a roddir.

3.59. Roedd un ACLl o'r farn nad oedd lefel y wybodaeth yr oedd yn ofynnol i ddarpar geisyddion ei chyflwyno yn ddigonol ac y dylid bod gofyniad sylfaenol i ddarparu cynlluniau dangosol o ran cynllun y safle, maint ac ati neu fel arall, darpariaeth i awdurdod wneud cais am ragor o wybodaeth pe byddai ei hangen er mwyn iddo ymateb.

3.60. Yn yr un modd, awgrymodd dau ymatebydd y dylai CNC hefyd gynnig gwybodaeth amgylcheddol arall a allai helpu'r datblygwr i asesu effeithiau'r datblygiad ar yr amgylchedd, gan y gallai fod gan y sefydliad wybodaeth a fyddai er budd y cyhoedd.

3.61. Awgrymodd ymatebydd o'r categori sector busnesau hefyd y dylai unrhyw gyngor cyn gwneud cais a roddir hefyd gynnwys unrhyw gynlluniau hysbys ar gyfer y dyfodol, fel cynllun i ddynodi ased hanesyddol.

*Sylwadau eraill*

3.62. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Annog ymgysylltu cynnar â Chomisiwn Dylunio Cymru;
- Byddai canllawiau ar sut y bydd gwasanaethau cyn gwneud cais yn gweithredu'n ymarferol yn cael eu croesawu;
- Dylai ACLlau hefyd roi cyngor ar sut i ymgynghori â grwpiau lleol fel rhan o'u gwasanaeth;
- Dylai fod yn ofynnol i'r cyrff hynny sy'n darparu gwasanaethau cyn gwneud cais lunio adroddiad blynyddol, er mwyn helpu i sicrhau ansawdd cyngor ac y cafodd targedau eu cyrraedd;
- Dylai fod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gosbi'r cyrff hynny nad ydynt yn bodloni'r amserlenni statudol ar gyfer ymateb

| C10 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| *Datganiadau tir cyffredin*<br><br>Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr o ran y gofyniad i ddarparu datganiad tir cyffredin fel rhan o wasanaethau cyn gwneud cais. Fodd bynnag, er ein bod yn cytuno na fyddant o bosibl yn briodol ym mhob achos, ystyrir eu bod yn swyddogaeth bwysig yn y broses cyn gwneud cais ac felly rydym o'r farn na ddylid dileu'r gofyniad yn llwyr. Rhoddir ystyriaeth bellach i sut y gall y defnydd o ddatganiadau tir cyffredin fod yn fwy cymesur.<br><br>*Lefel y wybodaeth a ddarperir gyda gwasanaethau cyn gwneud cais*<br><br>Byddwn hefyd yn ymrwymo i adolygu'r is-ddeddfwriaeth yn ystod y cam drafftio er mwyn asesu a ellir atgyfnerthu unrhyw ofynion sylfaenol statudol ar gyfer darparu | |

gwasanaethau cyn gwneud cais i sicrhau cyflwyniadau manwl a chyngor o ansawdd.

Lle na ellir cyflawni hyn, byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio canllawiau i roi mwy o eglurder a manylion am y materion hyn.

| C11 | A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir? |
|---|---|

Themâu allweddol

3.63. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 11 fel a ganlyn:

- Mae angen mwy o fanylion am y broses o gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir.
- Dylid ystyried cynnal adolygiad o'r amserlenni arfaethedig.

Trosolwg

3.64. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir, yn amodol ar y sylwadau canlynol:

*Manylion gweithdrefnol ychwanegol*

3.65. Nododd nifer o ymatebwyr o'r categori busnes, cyrff proffesiynol / grwpiau â buddiant a chategorïau eraill fod angen rhagor o fanylion am y materion gweithdrefnol penodol er mwyn sicrhau eglurder a gwella dealltwriaeth.

3.66. Nododd un ymatebydd hefyd fod angen eglurder ychwanegol ynghylch a yw 'buddiannau mewn tir' yn cynnwys cominwyr, tenantiaid ac ati, yn ogystal â pherchnogion tir. Roedd hefyd o'r farn bod y broses arfaethedig yn anymarferol i geisyddion ei dilyn ar gyfer pob un perchennog anhysbys neu fuddiant mewn tir.

3.67. Nododd ymatebydd arall o'r sector gwirfoddol hefyd fod angen ystyriaeth bellach er mwyn ymdrin â senarios lle mae cwmnïau preifat yn mynnu cael mynediad i dir gan berchnogion tir na fyddant o bosibl yn gwybod pwy ydynt.

*Amserlenni*

3.68. Cododd pedwar ymatebydd bryderon am amserlenni arfaethedig y cynnig. Awgrymodd un o'r sector gwirfoddol nad yw'r cyfnod o 14 diwrnod i wneud cais yn ddigon ac y dylid ei ehangu i 28 diwrnod o leiaf.

3.69. Yn yr un modd, nododd dau ymatebydd o'r sector busnesau, yn ogystal â chorff proffesiynol / grŵp a buddiant, fod y cyfnod o 3 mis sy'n berthnasol i gais am awdurdodiad yn rhy hir ac y dylid ei leihau i 6 wythnos.

*Ffurflenni safonedig*

3.70. Nododd dau ymatebydd, un o'r categori busnesau / ymgynghorwyr a'r llall o'r categori sector eraill y dylid ystyried cyflwyno ffurflenni safonedig ar gyfer ceisiadau, a fyddai'n helpu i wella eglurder a chysondeb.

*Sylwadau eraill*

3.71. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ni ddylid rhoi mwy o bwyslais ar y cynnig polisi nag unrhyw bwerau presennol a allai fod gan rai ceisyddion eisoes;
- Fel cam cychwynnol, dylid cynnal chwiliadau trylwyr drwy'r gofrestrfa tir;
- Dylid ystyried amgylchiadau lle y bydd perchennog tir / tirfeddiannwr yn wynebu costau proffesiynol nad oes modd eu hadennill na fydd datblygwyr yn awyddus i'w had-dalu.

| **C11** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Cynigir y dylid rhoi proses ar waith i alluogi datblygwyr i gael gwybodaeth am fuddiannau mewn tir. Bwriedir i'r broses arfaethedig gael ei hategu gan ganllawiau gweithdrefnol er mwyn helpu pob parti sy'n awyddus i ddefnyddio'r broses neu y mae'r broses yn effeithio arno. Byddai hyn yn ychwanegu rhagor o wybodaeth am faterion a nodwyd yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys y wybodaeth a nodwyd yn 6.36 sy'n datgan, er mwyn gallu cyflwyno hysbysiad, y bydd yn rhaid i'r ceisydd gyflwyno *“Gwybodaeth i ddangos bod y ceisydd wedi ymddwyn yn rhesymol a'i fod wedi rhoi cynnig ar bob modd rhesymol o gael gwybodaeth a/neu fod ei gais am wybodaeth wedi cael ei wrthod yn afresymol”*. Nid yw'r broses hon yn cael unrhyw effaith ar bwerau presennol eraill, ac o ran buddiannau Tir, cânt eu diffinio o dan Adran 28 o'r Ddeddf. | |

| **C12** | A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses ar gyfer pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir? |
|---|---|

<u>Themâu allweddol</u>

3.72. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 12 fel a ganlyn:

- Roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda rhai o blaid y cynigion ac eraill yn anghytuno.
- Dylid ystyried iawndal a'r incwm y bydd perchnogion tir yn ei golli.
- Mae angen eglurhad a chanllawiau pellach ar y cynigion.

Trosolwg

3.73. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn gymysg. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion polisi, gan nodi na ddylid bod unrhyw rwystrau i fynediad ac weithiau bod angen mynediad i dir a'i fod yn bwysig cael mynediad.

3.74. Yn yr un modd, roedd nifer o ymatebwyr eraill yn cytuno â'r cynigion mewn egwyddor, ond yn teimlo y dylid darparu rhagor o fanylion ac eglurhad o'r broses arfaethedig ar gyfer cael mynediad i dir er budd pob parti.

3.75. Roedd ymatebydd arall o'r categori sector eraill yn croesawu'r cynnig mewn egwyddor gan ei fod yn ymddangos yn well na phwerau tebyg yn Neddf Tai a Chynllunio 2016.

3.76. Roedd y sylwadau eraill gan y rhai hynny a oedd yn gyffredinol o blaid y cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Dylai pwerau mynediad gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer archeoleg at ddibenion arolygu anymwthiol;
- Dylai fod gan y rhai hynny y rhoddir pwerau mynediad iddynt asesiadau risg ac yswiriant priodol ar waith, er mwyn sicrhau na chyflwynir unrhyw hawliadau yn erbyn y sector cyhoeddus;
- Dylid ystyried unrhyw waith arfaethedig a all arwain at ddifrod a fydd yn effeithio ar gynefinoedd naturiol;
- Dylai ceisyddion ymddwyn yn rhesymol a cheisio cael cydsyniad drwy ymgysylltu â pherchnogion tir mewn ffordd gadarnhaol.

3.77. Fodd bynnag, cododd sawl ymatebydd ar draws pob sector bryderon, gan awgrymu bod cyflwyno pwerau o'r fath yn annemocrataidd, mai dim ond â chydsyniad perchnogion / meddianwyr y dylid eu caniatáu, neu os oes caffaeliad gorfodol yn gysylltiedig â chynnig.

3.78. Nododd dau ymatebydd hefyd nad oes unrhyw wybodaeth am iawndal neu ad-dalu costau os bydd perchnogion tir / tirfeddianwyr yn wynebu unrhyw golledion ariannol, difrod i dir ac yn colli refeniw.

3.79. Yn ogystal, dywedodd ymatebydd o'r sector gwirfoddol na ddylai Gweinidogion Cymru fod yn ymgymryd â gwaith ar ran datblygwyr i roi mynediad i dir, gan y gallai awgrymu bod cynlluniau o'r fath yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru, hyd yn oed cyn i gais gael ei gyflwyno.

*Sylwadau eraill*

3.80. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae pryderon nad yw'r broses arfaethedig yn addas ar gyfer symud cynlluniau drwy'r broses gydsynio yn gyflym;

- Dylai ceisiadau am fynediad i dir fod yn ddarostyngedig i amodau, fel nodi'r amser sydd ei angen, pa waith fydd yn cael ei gynnal a sawl gwaith y bydd angen mynediad;
- Dylai ceisyddion dalu am unrhyw gyngor proffesiynol sydd ei angen gan berchnogion tir.

| C12 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gall fod angen i'r ceisydd gael mynediad i'r tir am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys y rhai hynny a roddwyd gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynigion. Nodir yr argymhellion, a derbynnir y dylid cyfyngu mynediad i'r lefel sydd ei hangen, ac mewn ffordd nad yw'n oedi'r broses gydsynio.

Gall fod angen mynediad i dir am amrywiaeth o resymau ac yn ystod gwahanol gamau o'r broses gydsynio. Nid ystyrir bod rhoi mynediad i dir yn gyfystyr â phenderfynu ar gais ymlaen llaw. Ystyrir bod ei angen er mwyn i gais allu cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad, er enghraifft, i gynnal asesiad o effaith sylweddol tebygol y prosiect ar yr amgylchedd ac i lunio Datganiad Amgylcheddol lle y bo angen.

Bydd y llywodraeth yn parhau â'r cynigion i alluogi mynediad i dir a chaiff y broses ei nodi mewn canllawiau. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi eglurhad o'r broses arfaethedig gan sicrhau tegwch i bob parti.

| C13 | A ydych yn cytuno bod y gofynion sylfaenol arfaethedig ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais yn gymesur, o ystyried y gwahanol fathau o geisiadau y gellir eu cyflwyno? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 2 | 9 | 4 | 4 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 2 | 1 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 5 | 2 | 0 | 10 | 17 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 5 | 1 | 2 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 2 | 0 | 4 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 4 | 2 | 3 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **16** | **24** | **8** | **24** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **40** | **8** |
| **Canran Gyffredinol** | **83%** | **17%** |

Themâu allweddol

3.81. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 13 fel a ganlyn:

- Mae'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais effeithiol hyd at gyflwyno cais yn rhy fyr.
- Dylid ystyried pwy ddylai gydlynu'r ymgynghoriad cyn gwneud cais.
- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r gofynion penodol o ran beth y mae'n rhaid i ymgynghoriad cyn gwneud cais ei gynnwys mewn deddfwriaeth.

Trosolwg

3.82. Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai ymgysylltu cynnar ac ystyrlon â chymunedau lleol, ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid eraill o fudd, er bod y dull(iau) ar gyfer cyflawni hyn yn amrywio rhyngddynt. Nodir themâu cyffredinol yr ymatebion a gafwyd yn fanylach isod.

*Sut y dylid cydlynu ymgynghoriad cyn gwneud cais*

3.83. O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynigion polisi, awgrymwyd y dylid cydlynu'r ymgynghoriad cyn gwneud cais a chytuno arno â PEDW er mwyn gallu dilyn dull wedi'i deilwra. Nodwyd hefyd y dylai PEDW gadw rhestr o fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer ymgyngoreion perthnasol, fel ACLlau ac ymgyngoreion statudol, a chyhoeddi'r rhestr honno. Roedd ymatebydd arall o'r farn y dylid cydlynu gweithgareddau o'r fath drwy grwpiau cymunedol lleol. Roedd ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r cynigion polisi o'r farn y dylid mabwysiadu dull gweithredu a oedd yn cyd-fynd yn well â gofynion Deddf Cynllunio 2008.

*Amserlenni*

3.84. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r amserlenni arfaethedig a nodwyd ar gyfer gweithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais.

3.85. Yn benodol, roedd ymatebwyr o bob sector o'r farn bod y cyfnod arfaethedig o 12 mis ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais a chyflwyno cais ffurfiol am gydsyniad seilwaith yn rhy fyr i allu ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon. Awgrymwyd y dylid ei gynyddu i 18 mis neu 24 mis.

3.86. Yn ogystal, nododd ymatebydd o'r sector gwirfoddol y dylid ehangu'r amserlenni ar gyfer ymateb y tu hwnt i'r cyfnod arfaethedig o 42 diwrnod ac y dylid sicrhau bod cyhoeddiadau mewn papurau newydd am o leiaf 4 wythnos, yn hytrach nag 1 wythnos.

*Y gofyniad i agor a chynnal gwefan*

3.87. Cafwyd ymatebion cymysg i'r gofyniad i geisyddion agor a chynnal gwefan arbennig ar gyfer datblygiadau arfaethedig.

3.88. Roedd sawl ymatebydd yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig, yn amodol ar y sylwadau canlynol:

- Mae'n bosibl na fyddai rhai cynlluniau a dogfennau penodol wedi cael eu datblygu o fewn y cyfnod o 3 mis y mae'n ofynnol agor gwefan o'i fewn ac felly, mae angen rhywfaint o hyblygrwydd;
- Ni ddylid rhoi disgresiwn i geisyddion o ran pa gynlluniau ac adroddiadau sy'n berthnasol;
- Dylai gwefannau nodi'n glir pa ddiwygiadau a wnaed i gynllun a pham;
- Dylid cynnal gwefannau hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud ac y bydd unrhyw gyfnod herio wedi dod i ben.

3.89. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o sawl sector yn anghytuno gan awgrymu bod gwefan arbennig yn rhy feichus ac y gellid cynnwys gwybodaeth am ddatblygiad arfaethedig fel rhan o wefan sy'n bodoli eisoes.

*Cynnal digwyddiadau cyhoeddus*

3.90. Cafwyd ymatebion cymysg i'r gofyniad i gynnal o leiaf un digwyddiad cyhoeddus. Roedd cytundeb cyffredinol y dylid ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill ar ryw ffurf ffurfiol, ond roedd dau ymatebydd o'r farn na ddylid ffurfioli digwyddiadau cyhoeddus. Yn yr un modd, cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb ar sail iechyd a diogelwch. Cynigiodd dau ymatebydd y dylid cynnal digwyddiadau rhithwir fel dewis amgen. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd yn cytuno y

dylid ffurfioli digwyddiadau o'r fath (ar ba bynnag ffurf y cânt eu cynnal) a'u gwneud yn orfodol.

*Adroddiadau ymgynghori cyn gwneud cais*

3.91. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o blaid y gofyniad i gyflwyno adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais. Fodd bynnag, nododd dau ymatebydd na ddylai'r adroddiadau gynnwys yr holl sylwadau a ddaeth i law, o ystyried materion yn ymwneud â nifer yr ymatebion a'r GDPR. Awgrymwyd y gellid darparu'r sylwadau ar gais.

3.92. Awgrymodd un ACLl hefyd y dylai adroddiadau ymgynghori cyn gwneud cais gyfiawnhau'n glir pam na chafodd sylwadau a diwygiadau awgrymedig i brosiect eu rhoi ar waith. Awgrymodd ymatebydd o'r sector busnesau / ymgynghorwyr hefyd fod angen dangos ym mha ffordd roedd yr ymgynghoriad yn ystyrlon ac yn gynhwysol a darparu tystiolaeth o hynny fel rhan o'r adroddiad.

*Sylwadau eraill*

3.93. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen canllawiau pellach er mwyn rhoi mwy o eglurder ar faterion penodol a darparu enghreifftiau o'r arferion gorau;
- Dim ond un cylch ymgynghori ddylai fod yn orfodol, gan gynnal cylchoedd ychwanegol os bydd eu hangen;
- Dylai fod sail gyfreithiol i'r holl ofynion sylfaenol yn hytrach na dim ond eu nodi mewn canllawiau;
- Dylid darparu disgrifiadau annhechnegol o ddatblygiadau, cynlluniau, gwybodaeth ac ati i'w gwneud hi'n haws i'w deall;
- Dylid cynnwys asesiadau o'r effaith ecolegol yn ystod cam cynnar, yn ogystal â sefydlu grwpiau buddiant thematig;
- Ni ddylai'r gofynion i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd gael eu gwneud yn orfodol;
- Ni ddylid cyflwyno'r cysyniad o 'ymgynghoriad buddiant mewn tir terfynol' gan mai proses iteraidd ydyw a bod dyddiad cau terfynol yn debygol o beri dryswch;
- Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd yn ystod y cam cyn gwneud cais.

3.94. Nododd nifer bach o'r ymatebwyr hefyd yn glir nad oeddent yn cytuno â'r cynigion polisi mewn perthynas â'r ymgynghoriad cyn gwneud cais.

3.95. Dywedodd un busnes / ymgynghorydd fod y cynigion yn ymddangos yn rhy feichus a'u bod yn arwain at broses dau gam; yr ymgynghoriad anstatudol ar gam cynnar, wedi'i ddilyn gan ymgynghoriad cyn gwneud cais ffurfiol. Nododd hefyd nad oedd yn rhoi digon o amser i roi ymateb ystyrlon i sylwadau. Yn yr

un modd, codwyd pryderon fod y broses yn dyblygu gwaith, o ystyried bod yn rhaid i geisyddion ymgynghori eto ar ôl iddynt gyflwyno cais.

| C13 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

*Sut y dylid cydlynu ymgynghoriad cyn gwneud cais*

Rydym wedi ystyried sut y dylid cydlynu ymgyngoriadau cyn gwneud cais, ond rydym o'r farn mai darpar geisyddion sydd yn y sefyllfa orau i gynnal gweithgareddau ymgynghori a'u cydlynu.

*Amserlenni*

Rydym o'r farn bod ymgyngoriadau cyn gwneud cais trylwyr yn hanfodol er mwyn cael ceisiadau o ansawdd da a byddwn yn ceisio gwella'r gofynion ar gyfer ymgyngoriadau cyn gwneud cais mewn deddfwriaeth cymaint â phosibl. Gan fod nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfnod arfaethedig o 12 mis ar gyfer cynnal ymgyngoriadau cyn gwneud cais a chyflwyno cais yn rhy fyr i allu ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon, byddwn yn ymrwymo i ehangu'r cyfnod hwn drwy ychwanegu 6 mis (i gyfanswm o 18 mis).

*Y gofynion i agor a chynnal gwefan*

O ran y gofyniad arfaethedig i agor a chynnal gwefan fel rhan o unrhyw weithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais, rydym yn cytuno y gallai fod yn rhy feichus agor gwefan arbennig ar gyfer datblygiad arfaethedig mewn rhai amgylchiadau. Felly byddwn yn sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol naill ai i agor gwefannau arbennig, neu i greu gwe-dudalen ar wefan sy'n bodoli eisoes.

*Cynnal digwyddiadau cyhoeddus*

Mae'r gofyniad i gynnal digwyddiad cyhoeddus fel rhan o unrhyw ymgynghoriad cyn gwneud cais yn bwysig er mwyn sicrhau yr ymgysylltir â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd ystyrlon. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu bod yn rhy rhagnodol o ran ffurf y digwyddiadau hyn gan ein bod yn derbyn y byddai'n amrywio fesul achos, gan gynnwys p'un a ddylid eu cynnal ar ffurf wyneb yn wyneb neu ar ffurf rithwir. Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, nid ydym o'r farn y byddai'n broblem cynnal y digwyddiadau hyn ar ffurf rithwir, os bydd datblygwr o'r farn y byddai hynny'n fwy priodol ac felly, byddwn yn sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth yn ddigon hyblyg yn hyn o beth.

*Adroddiadau ymgynghori cyn gwneud cais*

Er bod y papur ymgynghori yn cynnig y dylai adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais gynnwys copïau o bob sylw a wnaed yn ystod y cam cyn gwneud cais, rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn anymarferol i rai datblygiadau a allai dderbyn nifer sylweddol o sylwadau, yn ogystal â'r amser a'r adnoddau y byddai eu hangen i'w golygu. Felly, nid ydym yn cynnig y dylid cynnwys y gofyniad hwn mewn is-ddeddfwriaeth.

*Ymgynghori ar y cynnig dylunio terfynol*

Rydym o'r farn mai proses iteraidd yw'r cam cyn gwneud cais, lle bydd darpar geisyddion yn ymgynghori â rhanddeiliaid a chymunedau lleol ar eu datblygiad arfaethedig, yn ystyried y sylwadau a wneir ac yn gwneud unrhyw ddiwygiadau neu amrywiadau i'w cynllun yr ystyrir eu bod yn briodol, yn seiliedig ar y sylwadau hynny. Drwy ymgynghori ar gynnig dylunio terfynol, bydd yn rhoi arwydd clir i'r rhai hynny mae datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt o'r hyn y bydd darpar geisydd yn gwneud cais amdano a bydd hefyd yn helpu i leihau unrhyw faterion newydd a gaiff eu codi ar ôl cyflwyno'r cais.

*Canllawiau*

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu canllawiau cynhwysfawr ar y broses ymgynghori cyn gwneud cais, tynnu sylw at feysydd o arferion gorau ac egluro unrhyw faterion y gall fod angen rhoi manylion pellach amdanynt i helpu datblygwyr ac i'w galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a chymunedau lleol.

**Y camau nesaf**

Byddwn yn parhau â'n cynigion ar gyfer ymgyngoriadau cyn gwneud cais gan ein bod o'r farn bod y gofynion sylfaenol arfaethedig yn gymesur â'r holl ddatblygiadau y mae'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith yn berthnasol iddynt, yn amodol ar unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt a nodwyd yn 'Ymateb y Llywodraeth' uchod. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth a manylion o ran y ffordd orau i ddatblygwyr ddefnyddio'r broses cyn gwneud cais i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon â'r rhai hynny y mae datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion gorau.

| **C14** | A ydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig ymateb o sylwedd? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 3 | 10 | 1 | 5 | 19 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 7 | 1 | 0 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 5 | 1 | 0 | 11 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 2 | 1 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 2 | 0 | 0 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **21** | **17** | **4** | **30** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **38** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **90%** | **10%** |

<u>Themâu allweddol</u>

3.96. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 14 fel a ganlyn:

- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i ymgyngoreion statudol sy'n dewis yr opsiwn 'dim sylw' fel rhan o'u hymateb o sylwedd.
- Dylid ystyried y cyswllt rhwng yr amserlenni ar gyfer ymateb a diffyg adnoddau ymhlith ymgyngoreion statudol.
- Ni ddylid caniatáu materion a godir mewn ymateb o sylwedd y gellid bod wedi'u codi'n gynharach yn ystod y broses.

<u>Trosolwg</u>

3.97. Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion polisi, yn amodol ar y sylwadau canlynol:

*Yr opsiynau ymateb ar gyfer ymateb o sylwedd*

3.98. Er eu bod yn cytuno â'r cynigion, cododd nifer o'r ymatebwyr bryderon o ran yr opsiwn lle gellid dewis 'Dim Sylw' fel rhan o'u hymateb o sylwedd. Teimlwyd nad oedd hyn yn ddefnyddiol ac y dylid naill ai ei egluro i ddatgan y byddai ymateb o'r fath yn golygu nad yw'r ymgynghorai statudol yn erbyn neu'n gwrthwynebu datblygiad, neu y dylid ei ategu â chyfiawnhad rhesymegol.

*Amserlenni ac adnoddau*

3.99. Roedd yr ymatebion am yr amserlenni ar gyfer cyflwyno ymateb o sylwedd yn gymysg.

3.100. Dywedodd ymatebydd o'r categori sector gwirfoddol na ddylai diffyg ymateb o fewn 24 diwrnod nodi nad oes gan ymgynghorai statudol unrhyw sylwadau i'w gwneud gan y gallai diffyg ymateb fod o ganlyniad i broblemau o ran adnoddau. Adleisiwyd hyn gan ymatebydd o'r sector busnesau / ymgynghorwyr a nododd fod ymgyngoreion statudol yn aml yn wynebu problemau o ran adnoddau, sy'n eu hatal rhag darparu ymatebion manwl safle-benodol. Gofynnodd ymatebydd arall am eglurhad o ran yr hyn a fyddai'n digwydd pe na fyddai ymgynghorai statudol yn gallu ymateb o fewn yr amserlen.

3.101. Fodd bynnag, awgrymodd tri ymatebydd y dylid lleihau'r cyfnod arfaethedig o 42 diwrnod ar gyfer ymateb oherwydd os bydd datblygwyr yn ymgysylltu yn ystod cam cynharach o'r broses, dylai ymgyngoreion statudol allu darparu ymateb o sylwedd yn gyflymach.

*Codi materion newydd*

3.102. Roedd dau ymatebydd yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor ond nodwyd ganddynt na ddylid caniatáu unrhyw faterion y gallai ymgyngoreion statudol fod wedi'u codi yn ystod cam cynharach o'r broses fel rhan o'r ymateb o sylwedd.

*Sylwadau eraill*

3.103. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen ystyried sefyllfaoedd lle na fydd ymgyngoreion statudol yn ymateb;
- Pryderon na fyddai ceisyddion yn darparu digon o wybodaeth a fyddai'n arwain at sefyllfa lle na fyddai ymgyngoreion statudol yn gallu awgrymu unrhyw fesurau lliniaru, a fyddai'n golygu y byddai angen codi materion ychwanegol yn ddiweddarach yn y broses;
- Mae'n bwysig sicrhau bod ymgyngoreion statudol yn rhoi cyngor o ansawdd ac nad yw eu hymatebion yn rhy gyffredinol.

| **C14** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
| --- | --- |
| *Yr opsiynau ymateb ar gyfer ymateb o sylwedd*<br><br>Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr am y ffaith nad yw'n ofynnol i ymgyngoreion statudol ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol na rhesymeg lle byddant yn dewis 'dim sylw' fel eu hymateb o sylwedd. Rydym yn gweld y manteision sy'n gysylltiedig â hyn a byddwn yn ceisio cyflwyno gofyniad i | |

ymgyngoreion statudol ddarparu rhesymau pam, pan gaiff opsiwn 'dim sylw' ei ddewis.

*Amserlenni ac adnoddau*

Wrth ystyried yr amserlenni ar gyfer ymateb i geisiadau, ynghyd â'r gofynion o ran adnoddau, credwn fod y cyfnod arfaethedig o 42 diwrnod ar gyfer cyflwyno ymateb o sylwedd yn briodol ac yn gymesur. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried sut y gellir cynnwys unrhyw hyblygrwydd o fewn y broses gydsynio drwy gynnig estyniadau, yn amodol ar gytundeb rhwng ymgyngoreion statudol a cheisyddion.

*Codi materion newydd*

Er ein bod yn bwriadu cyflwyno mesurau a fyddai'n rhoi mwy o bwyslais ar y broses gydsynio ac y byddem yn disgwyl i ymgyngoreion statudol godi materion perthnasol cyn gynted â phosibl, rydym yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle na fydd hyn yn bosibl. Felly, nid ydym yn cynnig y dylid atal ymgyngoreion statudol rhag codi materion newydd yn ystod cam diweddarach, ond byddem yn disgwyl iddynt roi cyfiawnhad digonol i esbonio pam na ellid bod wedi codi'r materion hynny yn gynharach. Byddwn yn ceisio ffurfioli hyn mewn is-ddeddfwriaeth.

Byddwn hefyd yn ceisio ategu unrhyw ofynion sy'n ymwneud ag ymatebion o sylwedd mewn is-ddeddfwriaeth â chanllawiau clir a hygyrch i ymdrin â'r materion a godwyd yn y sylwadau i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

**Y camau nesaf**

Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion mewn perthynas â'r gofyniad i ymgyngoreion statudol gyflwyno ymatebion o sylwedd, gan nodi manylion penodol am y broses hon mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ystyriaethau arfaethedig ac ymrwymiadau a ddynodir uchod yn ymateb y llywodraeth. Byddwn hefyd yn anelu at gyhoeddi canllawiau ar ôl cychwyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, a fydd yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag ymatebion o sylwedd.

| **C15** | A ydych yn cytuno â chyflwyno proses ‘dilysu cyn gwneud cais’ a phroses cyn gwneud cais dau gam? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 1 | 10 | 4 | 4 | 19 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 8 | 1 | 0 | 0 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 3 | 2 | 1 | 11 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 3 | 1 | 3 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 2 | 1 | 0 | 4 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 4 | 3 | 1 | 3 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **20** | **20** | **7** | **25** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **40** | **7** |
| **Canran Gyffredinol** | **85%** | **15%** |

Themâu allweddol

3.104. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 15 fel a ganlyn:

- Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r cynigion polisi, er bod angen mwy o fanylion a chanllawiau er mwyn gwella dealltwriaeth.
- Cafwyd ymatebion cymysg o ran pa un a ddylai'r cynnig polisi fod yn orfodol neu'n ddewisol.
- Codwyd pryderon y byddai'r cynnig polisi yn ychwanegu mwy o haenau at y broses gydsynio ac yn achosi dryswch.

Trosolwg

3.105. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion i gyflwyno proses dilysu cyn gwneud cais a phroses cyn gwneud cais dau gam. Nododd yr ymatebwyr y byddai mesurau o'r fath yn cynnig cyfle i ymdrin â gwallau neu hepgoriadau yn gyflym, yn hytrach nag yn ddiweddarach yn ystod y broses, ac y byddent yn sicrhau bod digon o waith ymgynghori ac asesiadau manwl o'r opsiynau wedi'u cynnal a bod tystiolaeth i'w hategu.

3.106. Fodd bynnag, er eu bod o blaid y cynigion mewn egwyddor, nododd nifer mawr o'r ymatebwyr o bob sector y byddai angen rhagor o fanylion a

chanllawiau ar y ddwy agwedd er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o sut y byddai cynigion o'r fath yn gweithredu'n ymarferol.

3.107. Cafwyd ymatebion cymysg hefyd o ran a ddylai gwiriadau dilysu cyn gwneud cais a phroses ymgynghori cyn gwneud cais dau gam fod yn orfodol neu'n ddewisol.

3.108. Roedd tri ymatebydd o'r farn y dylent fod yn orfodol er mwyn atal unrhyw achosion o oedi yn y broses benderfynu, ond roedd pedwar ymatebydd o'r farn y dylent fod yn ddewisol, er na roddwyd unrhyw gyfiawnhad dros hynny.

3.109. O blith y rhai hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig polisi, roedd rhai o'r prif bryderon a godwyd yn cynnwys y byddai rhoi'r cynigion ar waith yn ychwanegu dryswch a haenau ychwanegol at y broses, gan arwain o bosibl at ddyblygu gwaith ac estyniadau amser, ac y byddai'n rhoi gormod o faich ar bawb sy'n gysylltiedig â'r broses gydsynio.

*Sylwadau eraill*

3.110. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Pryderon o ran pa mor aml y byddai cyfarwyddiadau i ehangu amserlenni yn cael eu cyhoeddi;
- Diffyg gwybodaeth am yr amgylchiadau lle byddai'r cynigion polisi yn cael eu defnyddio;
- Mae angen mwy o eglurder am yr amserlenni ar gyfer gwiriadau dilysu cyn gwneud cais;
- PEDW ddylai gynnal y gwiriadau dilysu cyn gwneud cais gan y bydd yn rhoi cyfle iddo ddeall mwy am gais arfaethedig.

| C15 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad, rydym yn gweld manteision sy'n gysylltiedig â ffurfioli proses ymgynghori dau gam, lle bydd darpar geisyddion yn gallu dewis ehangu'r cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais er mwyn ymdrin yn ddigonol ag unrhyw bryderon a godir gan ymgyngoreion statudol. Rydym yn bwriadu cyflwyno pŵer o fewn is-ddeddfwriaeth a fyddai'n caniatáu ehangu'r cyfnod ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais ychydig er mwyn i ddarpar geisyddion allu ymdrin ag unrhyw faterion a godir gan ymgyngoreion statudol, os bydd angen yr amser ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ofyniad gorfodol.<br><br>Gan ein bod yn anelu at atgyfnerthu'r broses o roi mwy o bwyslais i'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith er mwyn sicrhau y caiff ceisiadau o ansawdd da eu cyflwyno, rydym o'r farn y byddai cyflwyno proses ymgynghori dau gam yn ffordd | |

o helpu i gyflawni'r nod hwn, ac y byddai hefyd yn lleihau unrhyw faterion posibl a gaiff eu codi'n ddiweddarach yn ystod y broses.

Fodd bynnag, er ein bod yn cytuno y byddai gwiriad dilysu cyn gwneud cais hefyd o fudd wrth sicrhau ceisiadau o ansawdd da, nid ydym o'r farn y byddai angen proses orfodol ffurfiol wedi'i dynodi mewn is-ddeddfwriaeth ym mhob achos. Yn hytrach, dull mwy cymesur fyddai caniatáu i wiriadau o'r fath gael eu cynnal ar sail anffurfiol, lle yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol. Caiff sut y bydd y broses hon yn gweithio ei ystyried a chaiff rhagor o fanylion eu cynnwys mewn canllawiau pan fyddant ar eu ffurf derfynol.

| **C16** | A ddylai unrhyw wybodaeth, dogfennaeth neu gynlluniau ychwanegol gael eu cyflwyno ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Dylent** | **Dylent (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Na ddylent** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 2 | 4 | 5 | 8 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 2 | 0 | 2 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 3 | 1 | 12 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 5 | 0 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 2 | 0 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 1 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **11** | **18** | **7** | **36** | **72** |

| | **Dylent/Dylent (yn amodol ar sylwadau)** | **Na ddylent** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **29** | **7** |
| **Canran Gyffredinol** | **81%** | **19%** |

Themâu allweddol

3.111. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 16 fel a ganlyn:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i gwestiwn 16 yn cytuno y dylid cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith.
- Awgrymwyd sawl argymhelliad penodol ar gyfer manylion a gwybodaeth ychwanegol i'w cyflwyno ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith ac roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y caiff cynlluniau eu cyflwyno a pha wybodaeth y maent yn ei darparu.

Trosolwg

3.112. Gwnaeth nifer mawr o'r ymatebwyr awgrymiadau ac argymhellion penodol am ba wybodaeth, dogfennaeth neu gynlluniau ychwanegol y dylid eu cyflwyno ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Nodi'r effeithiau ar iechyd meddwl cymunedau lleol, gwerthoedd eiddo a cholli amwynder preswyl;
- Materion amgylcheddol, gan gynnwys arolygon coed, asesiadau canlyniadau llifogydd ac arolygon ecolegol (gan gynnwys lle nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol);
- Unrhyw faterion a nodwyd yn ystod trafodaethau cyn gwneud cais;
- Yr effeithiau ar unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol;
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol;
- Crynodeb o gydsyniadau tybiedig a chydsyniadau a ddiddymwyd;
- Manylion am unrhyw gynnig i groesi dyfrffordd fewndirol;
- Asesiadau ansawdd aer a sŵn;
- Adroddiad yn nodi hynt negodiadau â buddiannau tir yr effeithir arnynt (ar gyfer caffaeliadau gorfodol yn unig);
- Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith drafft.

3.113. Gwnaeth dau ymatebydd hefyd sylwadau penodol ar y broses o gyflwyno cynlluniau. Nododd cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol fod y cynlluniau sy'n cael eu llunio yn aml yn methu â dangos gwir natur y cynigion ac y dylai unrhyw gynlluniau sy'n ofynnol gael eu dangos yn eu cyd-destun gan ddangos safle'r datblygiad a'r ardal ehangach.

3.114. Yn yr un modd, nododd ymatebydd arall o'r sector gwirfoddol y dylid cyflwyno cynlluniau sy'n dangos effaith datblygiad ar dir cyffredin, meysydd tref neu bentref a phriffyrdd cyhoeddus.

*Sylwadau eraill*

3.115. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dylai datblygwyr ddarparu eu gwybodaeth ariannol er mwyn rhoi sicrwydd y gellir cyflawni'r datblygiad a bod gan gwmnïau'r gallu ariannol i wneud hynny;
- Mae angen eglurder ynghylch ystyr 'amlinelliad o'r llwybr cydsynio a gynigir gan y datblygwr';
- Mae angen eglurder hefyd er mwyn deall pa dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldebau 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- Dylid cyfeirio at 'Ddatganiadau Tir Cyffredin';
- Os mai gorsaf gynhyrchu yw'r datblygiad, dylai fod yn ofynnol hysbysu'r awdurdodau ynni perthnasol.

| C16 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Roedd nifer o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn awgrymu y dylid cynnwys gwybodaeth, dogfennaeth ac ati ychwanegol ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith, a fydd eisoes wedi'i nodi, naill ai yn y Ddeddf ei hun, neu drwy is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys gwahanol ystyriaethau amgylcheddol a gorchymyn cydsyniad seilwaith drafft. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylid cyfeirio'n benodol at asesiadau perygl llifogydd (lle y bo'n berthnasol) a byddwn yn anelu at gynnwys darpariaeth yn hyn o beth fel rhan o'r is-ddeddfwriaeth.

Nodwn hefyd fod sawl ymatebydd wedi gofyn am ragor o eglurder a gwybodaeth am faterion penodol, a byddwn yn ceisio ymdrin â'r rhain drwy gyhoeddi canllawiau i ategu'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith.

**Y camau nesaf**

Rydym yn bwriadu bwrw ati â'n cynigion o ran pa wybodaeth, dogfennaeth a chynlluniau y mae'n rhaid eu cyflwyno fel gofyniad sylfaenol ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith, gan ychwanegu asesiadau perygl llifogydd (lle y bo'n berthnasol). Ni fydd hyn yn atal ceisyddion rhag cyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol arall y byddant o'r farn ei bod yn angenrheidiol ar gyfer eu cynllun penodol.

| C17 | A ydych yn cytuno â'r dull cyffredinol o gyflwyno a dilysu ceisiadau am gydsyniad seilwaith? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sector | Ydw | Ydw (yn amodol ar | Nac ydw | Ddim yn | Cyfanswm |

| | | | sylwadau pellach) | | gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 6 | 6 | 1 | 6 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 2 | 1 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 3 | 2 | 0 | 12 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 4 | 0 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 2 | 0 | 0 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **20** | **16** | **4** | **32** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **36** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **90%** | **10%** |

Themâu allweddol

3.116. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 17 fel a ganlyn:

- Roedd cytundeb cyffredinol â'r gofynion dilysu arfaethedig, gan gynnwys darparu amserlenni statudol.
- Codwyd pryderon am y cyfnod arfaethedig o 12 mis ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais a chyflwyno cais gyda rhai o'r farn y dylid ehangu'r amserlen hon.
- Mae angen canllawiau er mwyn rhoi mwy o fanylion ac eglurder ar faterion penodol.

Trosolwg

3.117. Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r dull cyffredinol ar gyfer cyflwyno a dilysu ceisiadau, yn amodol ar y sylwadau canlynol;

*Amserlenni*

3.118. Roedd cefnogaeth o blaid cynnwys amserlenni rhagnodol a statudol ar gyfer dilysu, gan awgrymu y byddai hyn yn rhoi sicrwydd i geisyddion.

3.119. Fodd bynnag, cododd tri ymatebydd bryderon am y cyfnod arfaethedig o 12 mis y mae'n rhaid cynnal gweithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais a chyflwyno cais ffurfiol am gydsyniad seilwaith o'i fewn. Roeddent o'r farn bod y cyfnod hwn yn rhy fyr a chyfyngol, gan effeithio yn y pen draw ar ansawdd cyflwyniadau. Awgrymwyd y dylid ehangu'r amserlen naill ai i 18 mis neu 24 mis, neu fel arall, y dylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y broses er mwyn cynnig estyniadau amser.

3.120. At hynny, roedd tri ymatebydd o wahanol sectorau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol deall yn well sut y byddai'r cyfnod o 12 mis yn gweithio'n ymarferol. Er enghraifft, pe byddai cais yn cael ei gyflwyno'n brydlon ond na chaiff ei dderbyn fel cais dilys, a fyddai hawl ganddynt i'w ailgyflwyno gan y byddai'r cyfnod o 12 mis wedi dirwyn i ben.

*Rhagor o wybodaeth*

3.121. Roedd ymatebydd o'r categori cyrff proffesiynol / grwpiau â buddiant yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol, ond o'r farn bod rhannau o'r geiriad yn rhy amwys, er enghraifft ‘unrhyw gynlluniau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol’.

3.122. Yn yr un modd, nododd ACLI fod y geiriad ‘adroddiad sy'n dogfennu'r cynnydd a wnaed o ran trafodaethau â'r ACLl(au)’ yn awgrymu bod disgwyl i ACLlau gael trafodaethau o'r fath cyn cyflwyno cais, a fyddai'n cymryd cryn dipyn o amser, a gofynnwyd am eglurhad yn hyn o beth.

*Sylwadau eraill*

3.123. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Er mwyn sicrhau y gall prosesau dilysu ymateb i newidiadau i bolisïau yn y dyfodol, dylid gallu dynodi gofynion dilysu eraill mewn canllawiau;
- Ni ddylai copïau caled o geisiadau fod yn orfodol gan fod hynny'n arwain at gostau ac amser diangen;
- Dylai unrhyw drafodaethau a gynhelir am rwymedigaethau cynllunio fod yn ofyniad dilysu.

| **C17** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|

Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion o ran sut y caiff ceisiadau am gydsyniad seilwaith eu cyflwyno a'u dilysu, yn amodol ar fân ddiwygiadau yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

*Amserlenni*

Rydym o'r farn bod ymgyngoriadau cyn gwneud cais trylwyr yn hanfodol er mwyn cael ceisiadau o ansawdd da a byddwn yn ceisio gwella'r gofynion ar gyfer ymgyngoriadau cyn gwneud cais mewn deddfwriaeth cymaint â phosibl. Gan fod nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfnod arfaethedig o 12 mis ar gyfer cynnal ymgyngoriadau cyn gwneud cais a chyflwyno cais yn rhy fyr i allu ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon, byddwn yn ymrwymo i ehangu'r cyfnod hwn drwy ychwanegu 6 mis (i gyfanswm o 18 mis).

*Rhagor o wybodaeth*

Er mwyn sicrhau eglurder yn y broses gydsynio, byddwn yn cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr i ategu'r ddeddfwriaeth.

| **C18** | A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu ynghylch cais am gydsyniad seilwaith? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 8 | 3 | 1 | 7 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 4 | 2 | 1 | 2 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 2 | 1 | 13 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 3 | 0 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 1 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **18** | **12** | **6** | **36** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **30** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **83%** | **17%** |

Themâu allweddol

3.124. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 18 fel a ganlyn:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i gwestiwn 18 yn cytuno â'r cynigion polisi.
- Nododd rhai ymatebwyr y dylid ailwerthuso'r gofynion sylfaenol ar gyfer hysbysiadau safle a chyhoeddiadau mewn papurau newydd.
- Dylid ystyried sut y gellir diogelu gwybodaeth sensitif.
- Mae angen rhagor o wybodaeth a chanllawiau er mwyn deall yn well sut y byddai'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu yn gweithio'n ymarferol.

Trosolwg

3.125. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion polisi, yn amodol ar y sylwadau canlynol:

*Hysbysiadau safle*

3.126. Roedd dau ymatebydd o'r farn nad oedd y gofynion arfaethedig ar gyfer hysbysiadau safle yn ddigonol. Roedd ymatebydd o'r categori cyrff proffesiynol / grwpiau â buddiant o'r farn y dylid ehangu isafswm o 1 hysbysiad safle i isafswm o 3, a nododd ymatebydd o'r sector gwirfoddol y dylid pennu hysbysiad bob 1km ar gyfer datblygiadau llinol yn hytrach na hysbysiad bob 5km.

3.127. Fodd bynnag, awgrymodd ymatebydd arall pe byddai datblygiad llinol yn fwy na 5km, ond ei fod o fewn yr un berchnogaeth tir, yna na fyddai angen hysbysiadau safle lluosog.

*Cyhoeddiadau mewn papurau newydd*

3.128. Nododd rhai ymatebwyr y dylid dileu'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd ar y sail nad yw'r broses hon wedi cael ei defnyddio cymaint yn ddiweddar. Yn yr un modd, ymatebodd dau ACLl drwy ddatgan

pe byddai gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu yn cael eu dirprwyo i ACLlau, na ddylent orfod talu i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd ac mai'r ceisyddion neu PEDW ddylai dalu'r costau hynny.

3.129. Nododd dau ymatebydd hefyd nad oedd yn glir a fyddai angen gosod cyhoeddiadau mewn papurau newydd bob dydd, neu unwaith yr wythnos er mwyn cydymffurfio â'r cynigion polisi ac o ystyried maint y datblygiadau y mae'r broses gydsynio yn berthnasol iddynt, y dylid ystyried gosod cyhoeddiadau mewn papur newydd cenedlaethol.

*Y bobl y bydd yn ofynnol iddynt fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu*

3.130. Nododd rhai ymatebwyr na ddylid cyfarwyddo ACLlau i hysbysu cymdogion ac mai Gweinidogion Cymru neu PEDW ddylai fod yn gyfrifol am fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu.

*Diogelu gwybodaeth sensitif*

3.131. Nododd dau ymatebydd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i brosesau golygu, yn enwedig os bydd y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu sensitif. Awgrymodd un corff proffesiynol / grŵp â buddiant ei fod wedi bod yn broblem i ACLlau gan fod angen adnoddau sylweddol. Yn yr un modd, roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai dim ond er mwyn cydymffurfio â gofynion GDPR y dylai prosesau golygu fod yn orfodol, gan eu bod yn cymryd llawer o amser ac yn gostus fel arall.

*Amserlenni*

3.132. Nododd dau ymatebydd fod y cyfnodau arfaethedig o 42 diwrnod ar gyfer cyflwyno Adroddiadau ar yr Effaith Leol ac ar gyfer cyflwyno sylwadau yn rhy fyr.

*Rhagor o wybodaeth*

3.133. Nododd tri ymatebydd, er eu bod yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion polisi, fod angen rhagor o wybodaeth a chanllawiau er mwyn deall yn well sut y byddai'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu yn gweithio'n ymarferol.

| C18 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| *Hysbysiadau safle*<br><br>Er ein bod yn cytuno y gallai fod yn briodol o dan rai amgylchiadau i arddangos mwy nag un hysbysiad safle, mae'n bosibl na fydd yn briodol ar gyfer cynigion datblygu eraill. Felly rydym yn cynnig y dylid cadw'r safbwynt polisi o'i gwneud yn ofynnol arddangos un hysbysiad safle ar gyfer datblygiad arfaethedig, ond yn | |

annog ceisyddion ar yr un pryd drwy ganllawiau i ystyried a fyddai o bosibl yn briodol arddangos hysbysiadau safle ychwanegol ar sail achosion unigol. At hynny, ni fydd ei gwneud yn ofynnol arddangos un hysbysiad safle yn atal ceisyddion rhag arddangos hysbysiadau safle ychwanegol, os byddant o'r farn bod angen gwneud hynny. Rydym o'r un farn o ran hysbysiadau safle ar gyfer datblygiadau llinol.

*Cyhoeddiadau mewn papurau newydd*

Mae rhan o'n hymrwymiad tuag at sicrhau bod y broses gydsynio ar gyfer seilwaith mor gynhwysol a hygyrch â phosibl yn dibynnu ar ddefnyddio cymaint o adnoddau a llwybrau â phosibl i roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau arfaethedig i randdeiliaid a chymunedau lleol. Er ein bod yn cydnabod y datblygiadau o ran technoleg gwybodaeth, rydym yn parhau o'r farn ei bod hi'n werth cyhoeddi hysbysiadau am ddatblygiadau arfaethedig mewn papurau newydd a chyhoeddiadau tebyg.

*Y cyfrifoldeb dros fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu*

Yn y lle cyntaf, mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn nodi mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag achosion unigol lle gall fod yn fwy priodol i gorff arall, neu'r ceisydd, fodloni rhan o'r gofynion hyn (neu'r gofynion i gyd).

Lle rhoddir cyfarwyddyd i gorff arall, fel ACLl neu CNC fodloni gofynion a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd neu gyfnodolyn, rydym yn cytuno mai'r ceisydd ddylai talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyn.

*Diogelu gwybodaeth sensitif*

Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed o ran yr amser a'r costau sy'n gysylltiedig â golygu gwybodaeth a rhoddir ystyriaeth bellach i hyn wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth er mwyn helpu i leihau'r baich ar y rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses gydsynio, ond gan ar yr un pryd gydymffurfio â gofynion diogelu data.

*Amserlenni*

Rydym o'r farn bod cyfnod o 42 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau yn gyfnod priodol a chymesur. Fodd bynnag, dim ond isafswm cyfnod yw'r cyfnod hwn a gellir ymdrin â'r gallu i ehangu'r amserlen hon ar gyfer datblygiadau sydd o bosibl yn fwy cymhleth neu arwyddocaol drwy ganllawiau.

**Y camau nesaf**

Ein bwriad yw bwrw ati â'n cynigion polisi ar gyfer gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu drwy ddynodi'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni mewn is-ddeddfwriaeth a rhoi rhagor o fanylion a gwybodaeth mewn canllawiau a thynnu sylw at arferion gorau.

| **C19** | A ydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig adroddiadau ar yr effaith leol? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 6 | 4 | 1 | 8 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 4 | 4 | 0 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 0 | 0 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 4 | 0 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 1 | 4 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 2 | 2 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **15** | **15** | **4** | **38** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **30** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **88%** | **12%** |

Themâu allweddol

3.134. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 19 fel a ganlyn:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn yn cytuno â'r cynigion polisi.
- Awgrymodd yr ymatebwyr lawer o ofynion ychwanegol y dylid eu cynnwys fel rhan o adroddiad ar yr effaith leol.

- Mae angen sicrwydd na fydd adroddiadau ar yr effaith leol yn cynnwys sylwadau ar rinweddau cynnig datblygu.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am faterion penodol, megis ble y ceir achosion o wrthdaro rhwng polisïau cenedlaethol a lleol.

Trosolwg

3.135. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig polisi mewn perthynas â chynnwys adroddiadau ar yr effaith leol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys materion ychwanegol, er nad oedd yn glir mewn rhai achosion p'un a ddylai'r materion hyn fod yn orfodol neu'n ddewisol. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cynnwys sylwadau a wneir gan gynghorau tref / cymuned a sefydliadau eraill neu aelodau o'r cyhoedd yn ystod y cam cyn gwneud cais sy'n berthnasol;
- Crynhoi'r effeithiau ar Barciau Cenedlaethol a chymunedau lleol;
- Cynnwys cynigion datblygu perthnasol eraill sydd wrthi'n cael eu hystyried, nodweddion yr ardal leol, cyfyngiadau safle ac unrhyw rwymedigaethau cynllunio;
- Dylai ACLlau ddarparu cyfiawnhad yn esbonio pam mae angen yr amodau a awgrymir.

*Sylwadau eraill*

3.136. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Angen i sicrhau mai dim ond gwerthusiad o ddatblygiad a geir mewn adroddiad ar yr effaith leol, yn hytrach na sylwadau ar rinweddau cynnig;
- Lle ceir anghysondeb rhwng blaenoriaethau / polisïau cenedlaethol a lleol, mae angen eglurder o ran faint o bwys a roddir iddynt;
- Dylid cyfyngu sylwadau gan ACLlau ac ymgyngoreion statudol i sylwadau ar bynciau sy'n rhan o'u cylch gwaith yn unig, er mwyn osgoi achosion o ddyblygu.

| **C19** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
| --- | --- |
| Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y gofynion sylfaenol ar gyfer yr hyn y dylid ei gynnwys mewn adroddiad ar yr effaith leol ac er na fyddai hyn yn atal ceisyddion rhag cyflwyno gwybodaeth ychwanegol bellach, rydym o'r farn ei bod hi'n werth ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau ar yr effaith leol gynnwys gwybodaeth ychwanegol bellach, fel yr awgrymwyd gan yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad. | |

Yn benodol, byddai gwybodaeth sy'n ymwneud â chynigion datblygu perthnasol eraill sydd o bosibl wrthi'n cael eu hystyried o fudd i bob parti sy'n gysylltiedig â'r broses gydsynio, yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau safle perthnasol.

Yn yr un modd, mae'r ymgynghoriad yn cynnig y byddai'n rhaid i adroddiad ar yr effaith leol gynnwys unrhyw amodau drafft y mae awdurdod cynllunio o'r farn y dylid eu cynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn awgrymu y dylid hefyd rhoi rhesymau dros amodau o'r fath ac rydym yn cytuno y byddai hyn yn ddefnyddiol i ddarpar geisyddion.

**Y camau nesaf**

Rydym yn cynnig bwrw ati â'r gofyniad i is-ddeddfwriaeth ddynodi yr hyn y dylai adroddiad ar yr effaith leol ei gynnwys fel isafswm, gan ar yr un pryd ystyried gwybodaeth ychwanegol sy'n briodol yn ein barn ni, yn seiliedig ar 'Ymateb Llywodraeth Cymru' uchod.

| **C20** | A ydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig adroddiadau o'r effaith ar y môr? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 1 | 2 | 12 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 2 | 0 | 6 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 0 | 1 | 14 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 4 | 0 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 1 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 2 | 2 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **10** | **9** | **6** | **47** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **19** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **76%** | **24%** |

<u>Themâu allweddol</u>

3.137. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 20 fel a ganlyn:

- Ceir cefnogaeth eang o blaid cynnwys arfaethedig adroddiadau o'r effaith ar y môr.
- Dylai'r adroddiad o'r effaith ar y môr fod ar ffurf dogfen ffeithiol.
- Mae'n bwysig i geisyddion a gwneuthurwyr penderfyniadau ddeall y rhesymau dros unrhyw wrthwynebiadau neu amodau ychwanegol awgrymedig a godir mewn adroddiad o'r effaith ar y môr.
- Pwyslais ar yr angen i osgoi achosion o ddyblygu gwybodaeth.

<u>Trosolwg</u>

3.138. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnwys arfaethedig adroddiadau o'r effaith ar y môr.

3.139. Fel rhan o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith, mae'n ofynnol i CNC gyflwyno adroddiad o'r effaith ar y môr, a bydd hefyd yn ofynnol, pan ymgynghorir â'r sefydliad fel ymgynghorai statudol, iddo gyflwyno ymateb o sylwedd. Wrth lunio dwy ddogfen ar wahân (lle y bo'n ofynnol), nododd yr ymatebwyr y byddai gwybodaeth o bosibl yn cael ei dyblygu/ yn gorgyffwrdd yn y materion a gaiff eu codi, ac o ganlyniad, codwyd pryderon ganddynt.

3.140. Nid oedd nifer bach o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnwys adroddiadau o'r effaith ar y môr, am wahanol resymau.

3.141. Roedd rhai ymatebwyr am i'r gofynion ar gyfer adroddiadau o'r effaith ar y môr gael eu geirio mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n glir beth y bydd CNC yn gwneud sylwadau arno, gan gyfeirio'n benodol at asesiadau amgylcheddol yn hytrach na 'dynodiadau amgylcheddol'.

*Sylwadau eraill*

3.142. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Yr angen i fod yn glir na ellid ystyried bod yr adroddiad o'r effaith ar y môr yn cyflwyno ymateb statudol CNC o ran cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr neu'r Rheoliadau Cynefinoedd;
- Cais i fod yn fwy hyblyg mewn perthynas ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.

| C20 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Rydym yn cynnig y dylid bwrw ati i ddiwygio'r rheoliad perthnasol sy'n nodi cynnwys yr adroddiad o'r effaith ar y môr i nodi y gall adroddiad o'r fath hefyd gynnwys ymateb o sylwedd CNC, os ymgynghorir â'r sefydliad hefyd yn ei rôl fel ymgynghorai statudol.

Rydym hefyd yn cynnig y dylid bwrw ati i ddiwygio'r rheoliad perthnasol sy'n cyfeirio at yr angen i CNC wneud sylwadau ar 'ddynodiadau amgylcheddol' a'i ddiwygio i gyfeirio at asesiadau amgylcheddol a'u casgliadau, sy'n gwella eglurder mewn perthynas â'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais am gydsyniad seilwaith.

| C21 | A ydych yn cytuno na ddylai fod modd i ymgyngoreion statudol roi sylwadau ar unrhyw faterion y gellid bod wedi eu codi yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 3 | 8 | 3 | 5 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 1 | 8 | 0 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 4 | 11 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 3 | 2 | 2 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 3 | 3 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 0 | 4 | 5 | 11 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | **8** | **14** | **24** | **26** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **22** | **24** |
| **Canran Gyffredinol** | **48%** | **52%** |

Themâu allweddol

3.143. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 21 fel a ganlyn:

- Nid oedd cytundeb barn cyffredinol o ran p'un a ddylid caniatáu materion newydd.
- Cyflwynodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig polisi sawl gwahanol reswm dros hynny.
- O blith y rhai hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig polisi, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion polisi yn gwella sicrwydd yn y broses.

Trosolwg

3.144. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn gymysg, er bod y rhan fwyaf o'r rhai hynny a ymatebodd yn anghytuno â'r cynnig polisi.

3.145. Nododd nifer sylweddol o'r ymatebwyr amrywiaeth o resymau pam hynny, gan gynnwys:

- Nid yw datblygiadau yn sefydlog ac mae'n bosibl y byddant yn newid, gan arwain at godi materion nad oeddent yn berthnasol cyn hynny;
- Mae'n bosibl na ddaw tystiolaeth berthnasol i'r amlwg neu na fydd ar gael tan yn ddiweddarach yn ystod y broses;
- Gall pwysau ar wasanaethau ac adnoddau olygu na fydd yn bosibl codi materion pwysig yn ystod cam cynharach;
- Gallai fod yn anghyfreithlon atal ystyriaethau perthnasol yn ystod unrhyw gam a gallai o bosibl arwain at heriau cyfreithiol llwyddiannus;
- Mae gwrthod caniatau i faterion sy'n berthnasol i gais gael eu codi'n ddiweddarach yn debygol o arwain at ganlyniadau wedi'u llywio'n bennaf gan broses yn hytrach na phrosesau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

3.146. Fodd bynnag, roedd gan ymatebwyr eraill farn wahanol ac roeddent yn cytuno â'r cynnig polisi, gan nodi nad yw codi materion newydd na chawsant

eu codi yn ystod yr ymgynghoriad cyn gwneud cais yn effeithlon nac yn ddefnyddiol a'i fod yn achosi oedi diangen i'r broses.

3.147. Nododd dau ymatebydd o'r categori busnesau / ymgynghorwyr y byddai'r cynnig yn helpu i wella sicrwydd yn y broses, yn cymell rhanddeiliaid i ymgysylltu'n gynharach ac yn helpu i roi ffocws i drafodaethau cyn gwneud cais.

3.148. Mynegodd dau ymatebydd o'r categori busnesau / ymgynghorwyr hefyd eu bod yn cytuno â'r cynnig ond gan nodi bod angen mwy o eglurder o ran pwy fydd yn gyfrifol am benderfynu a ellid bod wedi codi mater yn gynharach.

3.149. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno ag egwyddor y cynnig polisi, ond yn cydnabod bod heriau y byddai angen eu hystyried, yn debyg i'r rhai hynny a nodwyd gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

3.150. Yn yr un modd, nododd un ymatebydd y dylid caniatáu materion newydd, ar yr amod bod cyfiawnhad rhesymol wedi'i roi o ran pam na ellid bod wedi codi materion o'r fath yn gynharach.

| **C21** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Er mai ein nod yw hyrwyddo proses gydsynio gadarn â mwy o bwyslais ar y camau cychwynnol, lle y gellir cyflwyno ac ymdrin ag unrhyw faterion neu bryderon ynghylch datblygiad arfaethedig mor gynnar â phosibl, gan sicrhau proses archwilio effeithlon, rydym yn derbyn y gall fod amgylchiadau lle na fydd hyn yn bosibl.<br><br>Felly, er y byddwn yn annog ymgyngoreion statudol yn gryf i godi unrhyw faterion cyn gynted â phosibl yn ystod y cam cyn gwneud cais, rydym yn cynnig y dylid caniatáu i faterion newydd gael eu codi ar ôl cyflwyno cais. Fodd bynnag, byddwn yn cynnwys gofyniad mewn deddfwriaeth i ymgyngoreion statudol ddarparu cyfiawnhad digonol i esbonio pam na ellid bod wedi codi materion o'r fath yn ystod y cam cyn gwneud cais. | |

| **C22** | A ydych yn cytuno y dylid ymgynghori â'r ymgyngoreion statudol arfaethedig ym mhob achos? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar** | **Nac ydw** | **Ddim yn** | **Cyfan swm** |

| | | | sylwadau pellach) | | gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 6 | 2 | 7 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 3 | 1 | 3 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 4 | 2 | 1 | 10 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 2 | 1 | 3 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 2 | 4 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 4 | 1 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **18** | **14** | **9** | **31** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **32** | **9** |
| **Canran Gyffredinol** | **78%** | **22%** |

Themâu allweddol

3.151. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 22 fel a ganlyn:

- Dylid ehangu'r rhestr o ymgyngoreion statudol i gynnwys ymgyngoreion ychwanegol.
- Nid oes angen ymgynghori â rhai ymgyngoreion statudol penodol ym mhob achos.

Trosolwg

3.152. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr arfaethedig o ymgyngoreion statudol y dylid ymgynghori â nhw ym mhob achos, ond awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ehangu'r rhestr i gynnwys amrywiaeth o ymgyngoreion ychwanegol, gan gynnwys:

- Cymunedau lleol;

- Cynghorau Cymuned;
- Darparwyr Rhwydwaith Ynni;
- Cadw;
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig (lle y bo'n berthnasol)

3.153. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd ychwanegiadau pellach at y rhestr o ymgyngoreion statudol, y dylid ond ymgynghori â nhw o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, nododd un ymatebydd y dylid ychwanegu'r Gymdeithas Mannau Agored ar gyfer ceisiadau sy'n effeithio ar dir comin, meysydd tref neu bentref a mannau agored. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd arall y dylid ymgynghori â Network Rail lle ceir effaith ar groesfannau rheilffordd.

3.154. Roedd dau ymatebydd hefyd yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig polisi, ond gwnaethant ofyn pam bod Dŵr Cymru a Severn Trent wedi'u cynnwys fel ymgyngoreion ym mhob achos, ond nad yw eraill sy'n cyflawni rolau sydd yr un mor bwysig wedi'u cynnwys, fel y rhai hynny sy'n ymwneud â dosbarthu neu drawsyrru trydan neu nwy.

3.155. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig polisi, nid oedd nifer bach yn cytuno, am wahanol resymau.

3.156. Nid oedd rhai yn cytuno ar y sail nad oedd y rhestr o ymgyngoreion statudol y dylid ymgynghori â nhw yn gyflawn ac y dylai gynnwys yr Awdurdod Llifogydd Lleol / Awdurdod Cymeradwyo SuDS perthnasol, cynrychiolwyr lleol (Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd) a Coed Cadw.

3.157. Roedd eraill yn anghytuno gan nodi na ddylid ymgynghori â rhai ymgyngoreion statudol penodol ym mhob achos, fel CNC, y Weinyddiaeth Amddiffyn, rhwydweithiau rheilffordd a NATS.

3.158. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Pryderon ynghylch cynnwys grwpiau buddiant arbennig neu endidau di-elw ar y rhestr o ymgyngoreion statudol gan eu bod yn dueddol o godi pryderon dros faterion a oedd eisoes wedi'u codi gan ymgyngoreion statudol eraill;
- Dylai fod yn ofynnol i PEDW gadw rhestr ganolog o wybodaeth gyswllt ar gyfer ymgyngoreion statudol;
- Dylai diffyg amser a / neu adnoddau ymgyngoreion statudol olygu y dylid cyfyngu ar y rhestr o'r rhai hynny yr ymgynghorir â nhw ym mhob achos;
- Dylai'r rheoliadau nodi'n glir nad yw ACLlau yn ymgyngoreion statudol.

| C22 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Nodir ymateb y llywodraeth isod gyda Chwestiwn 23. | |

| C23 | A ydych yn cytuno â'r ymgyngoreion statudol arfaethedig y dylid ymgynghori â nhw o dan amgylchiadau penodol? Os nad ydych yn cytuno, pam a pha rai sydd wedi cael eu colli? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 6 | 0 | 9 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 3 | 0 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 3 | 4 | 1 | 9 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 3 | 1 | 3 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 2 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 1 | 3 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **16** | **17** | **7** | **32** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **33** | **7** |
| **Canran Gyffredinol** | **83%** | **18%** |

Themâu allweddol

3.159. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 23 fel a ganlyn:

- Dylid ehangu'r rhestr o ymgyngoreion statudol i gynnwys ymgyngoreion ychwanegol.
- Dylid ailystyried o dan ba amgylchiadau y dylid ymgynghori â rhai cyrff penodol mewn rhai achosion.

Trosolwg

3.160. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr arfaethedig o ymgyngoreion statudol y dylid ymgynghori â nhw o dan amgylchiadau penodol, ond awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ehangu'r rhestr i gynnwys amrywiaeth o ymgyngoreion ychwanegol, gan gynnwys:

- Cyd-bwyllgorau Corfforedig;
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- Cynrychiolwyr lleol (fel Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd);
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
- Yr Awdurdod Priffyrdd Lleol.

3.161. Cododd dau ymatebydd o'r categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio hefyd bryderon nad yw'r rhestr arfaethedig yn cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mai dim ond y cyflenwyr dŵr perthnasol y mae'r rhestr o gyrff perthnasol ar gyfer datblygiadau trawsffiniol yn eu cynnwys ac nad oes unrhyw ymgymerwyr statudol eraill wedi'u cynnwys.

3.162. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr arfaethedig, ond gwnaethant awgrymu diwygiadau i'r amgylchiadau lle byddai angen ymgynghori â rhai ymgyngoreion penodol. Er enghraifft, nododd un ymatebydd y dylid ymgynghori ag Ymddiriedolaeth y Theatrau ar yr effeithiau ar unrhyw theatr, yn hytrach na dim ond y tir. Yn yr un modd, awgrymodd dau ACLl y dylid diwygio'r cyfeiriadau at asedau hanesyddol ac y dylid ychwanegu asiantaethau amgylchedd hanesyddol perthnasol eraill at y rhestr lle bo angen.

3.163. O ran y rhai hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig polisi, nododd un ymatebydd ei bod yn ymddangos bod diffyg rhanddeiliaid posibl sy'n gysylltiedig ag egni ymhlith yr ymgyngoreion statudol arfaethedig mwy penodol. Nododd ymatebydd arall y dylid ymgynghori â RSPB ar sail anstatudol o dan amgylchiadau penodol, megis cynigion a allai effeithio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig â nodweddion adar a gwarchodfeydd RSPB.

*Sylwadau eraill*

3.164. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen rhagor o wybodaeth er mwyn rhoi eglurder ar y gofynion i ymgyngoreion statudol;
- Ymholiadau am gynnwys rhai grwpiau penodol ar y rhestr a allai godi pryderon dros faterion sydd eisoes wedi'u codi gan ymgyngoreion statudol eraill;
- Dylid paratoi canllawiau er mwyn nodi'r gofynion ymgynghori i gyrff a all fod yn berthnasol, ond na ellir eu cynnwys ar y rhestr ymgyngoreion statudol oherwydd termau'r setliad datganoli.

| **C22 a C23** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|

Awgrymwyd nifer o gyrff a sefydliadau y dylid eu cynnwys ar y rhestr arfaethedig o ymgyngoreion statudol a fydd eisoes yn cael eu cynnwys wrth ymgynghori, naill ai drwy eu cynnwys yn y Ddeddf, neu gan eu bod eisoes wedi'u cynnwys ar y rhestr arfaethedig mewn rhyw rinwedd.

At hynny, nid oes modd cynnwys rhai o'r awgrymiadau a gynigiwyd gan ymatebwyr fel ymgyngoreion statudol, neu ni fyddem am eu rhwymo i'r gofynion sy'n gysylltiedig â bod yn ymgynghorai statudol. Er ein bod o'r farn y byddai'n werth ymgynghori â rhai o'r grwpiau hyn o dan rai amgylchiadau penodol, credwn y byddai'n fwy priodol gwneud hynny ar sail ddewisol yn hytrach nag ar ffurf gofyniad gorfodol.

O ran y rhai hynny y cynigir y dylid ymgynghori â nhw ym mhob achos, mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau â'r cyrff a'r sefydliadau hynny a fynegodd eu hawydd i gael eu cynnwys fel ymgyngoreion ar bob cais, ac rydym o'r farn bod hynny'n briodol.

**Y camau nesaf**

Cynigir y dylid bwrw ati â'r cynnig polisi ar gyfer dynodi rhestr o ymgyngoreion statudol mewn is-ddeddfwriaeth, ynghyd â'r amgylchiadau lle y bydd yn rhaid ymgynghori â nhw. Rydym yn gwerthfawrogi arbenigedd cyrff eraill hefyd, ond ar yr un pryd, nid ydym am osod dyletswyddau beichus arnynt fel y ddyletswydd i gyflwyno adroddiad blynyddol ac ati, a byddwn yn ceisio eu cynnwys fel ymgyngoreion ffurfiol yn y broses.

Cynigir hefyd y dylid ategu'r ddeddfwriaeth â chanllawiau cynhwysfawr, gan gynnwys nodi'r ymgyngoreion hynny y gallai fod o fudd iddynt gael eu cynnwys wrth ymgynghori o dan rai amgylchiadau penodol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau.

| **C24** | A ydych yn cytuno y dylai'r ACLl perthnasol gael ffi benodedig am baratoi Adroddiad ar yr Effaith Leol? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfan swm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 5 | 4 | 6 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 1 | 5 | 2 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 0 | 16 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 3 | 1 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 2 | 0 | 4 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 1 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **11** | **17** | **8** | **36** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **28** | **8** |
| **Canran Gyffredinol** | **78%** | **22%** |

<u>Themâu allweddol</u>

3.165. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 24 fel a ganlyn:

- Nid atebodd bron i hanner yr ymatebwyr y cwestiwn. O blith y rhai hynny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynigion polisi ond ni roddodd llawer ohonynt dystiolaeth ategol i gyfiawnhau'r safbwynt.
- Roedd y rhai hynny a oedd o blaid ffi unigol o'r farn bod y gwaith o natur safonol ac y bydd yr un ymdrech yn ofynnol, ar gyfartaledd, bob tro y caiff y darn hwnnw o waith ei wneud. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr ac i ACLlau y mae eu hadnoddau yn brin. At hynny, gall ACLlau godi tâl am gostau eraill sy'n fwy penodol i'r ardal leol.

- Roedd y rhai hynny nad oeddent o blaid ffi benodedig o'r farn y dylid pennu graddfa ffioedd oherwydd gall ceisiadau amrywio o ran faint o waith sydd ei angen i lunio'r adroddiad.

Ffi benodedig

3.166. Roedd y rhai hynny a oedd o blaid y ffi benodedig o'r farn bod y gwaith o natur safonol, a ategwyd ymhellach gan y farn y dylai'r adroddiad ar yr effaith leol fod yn adroddiad ffeithiol, gan osgoi barnau neu ddadleuon, a bod ffi benodedig felly yn addas. Felly, roedd ymatebwyr o'r farn y bydd yr un ymdrech yn ofynnol, ar gyfartaledd, bob tro y caiff y darn hwnnw o waith ei wneud. Wrth roi'r ymateb hwn, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod lefel y ffi arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori yn rhy isel.

Ffi benodedig ag elfen atodol

3.167. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai ffi a bennir ar lefel genedlaethol yn briodol o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau am y rhesymau a nodir uchod. Fodd bynnag, roeddent o'r farn mewn achosion eithriadol lle y cytunir bod materion mwy cymhleth yn amlwg, y gall fod achos o blaid ffioedd uwch, yn seiliedig ar baramedrau y cytunwyd arnynt. Roedd rhai o'r farn y byddai hyn fwyaf perthnasol i ACLlau bach, lle y byddai angen cyflogi ymgynghorwyr.

Ffi amrywiadwy

3.168. Roedd pob ACLl ond un o blaid y ffi amrywiadwy a chafwyd cefnogaeth o'i phlaid gan rai busnesau hefyd. Roedd y rhai a oedd o blaid y dull gweithredu hwn o'r farn bod angen adlewyrchu lefelau cymhlethdod ceisiadau a nifer y swyddogion/ ymgyngoreion dan sylw. Mae hyn gan fod yr adnoddau sydd eu hangen i lunio adroddiad ar yr effaith leol yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar natur y prosiect. Nododd rhai ACLlau y dylid pennu'r ffi hon ar lefel genedlaethol.

Arall

3.169. Cyflwynodd ymatebwyr sylwadau hefyd mewn perthynas â'r canlynol:

- Sut y dylid gwneud y taliad, naill ai'n uniongyrchol i'r ACLl, neu drwy PEDW.
- Yr angen i roi mesurau perfformiad ar waith er mwyn gwarantu y byddai'r ACLl yn darparu'r gwasanaeth gofynnol.

| C24 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Nodir ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl gwestiynau sy'n ymwneud â ffioedd gyda Chwestiwn 29. | |

| | A ydych yn cytuno y dylai ACLlau gael llai o daliad neu ddim taliad, os na fyddant yn cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol o fewn y terfyn amser ac yn unol â'r gofynion sylfaenol? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 8 | 4 | 2 | 5 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 5 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 0 | 16 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 2 | 0 | 5 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 2 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 5 | 1 | 0 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **18** | **8** | **9** | **37** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **26** | **9** |
| **Canran Gyffredinol** | **74%** | **26%** |

Themâu allweddol

3.170. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 25 fel a ganlyn:

- Nid ymatebodd 44% o bobl i'r cwestiwn, a rhoddodd 18% arall ateb heb ddarparu unrhyw dystiolaeth. O blith y rhai a oedd o blaid y ddarpariaeth, ond na wnaethant ddarparu rhesymeg bellach, roedd pawb ond un o blaid y cynigion.
- Roedd y rhai hynny a oedd o blaid y ddarpariaeth o'r farn y bydd targed perfformiad yn cymell perfformiad ac yn sicrhau bod pobl yn parhau'n atebol o ran bodloni amserlenni a rhoi mewnbwn digonol ac ystyrlon.
- Roedd y rhai hynny nad oeddent yn cefnogi'r cynigion o'r farn y bydd yr ACLl wedi defnyddio'r un adnoddau o hyd a bod yr oedi o bosibl yn deillio o ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am ddarpariaeth i'r ceisydd gytuno ar amserlen estynedig ar gyfer cyflwyno'r adroddiad ar yr effaith leol.

<u>Safonau perfformiad</u>

3.171. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynigion o'r farn y byddai'n ffordd o sicrhau bod y parti yn atebol am ei rôl yn y broses. Yn debyg i'r cwestiwn blaenorol, roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn bod y safonau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, yn rhesymol, sy'n golygu bod modd ymateb mewn modd amserol.

3.172. Aeth rhai ymatebwyr ymhellach gan nodi bod eu cefnogaeth i'r gyfundrefn ffioedd yn dibynnu ar sicrwydd y bydd yr arian gaiff ei godi yn arwain yn uniongyrchol at welliannau gwirioneddol o ran ansawdd y gwasanaethau a'r ddarpariaeth gwasanaethau y mae datblygwyr yn eu cael.

3.173. O blith y rhai hynny a oedd o blaid y cynnig, roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod effaith y cynigion, a'u canlyniadau anfwriadol. Na ddylai'r system fod yn rhy gosbol i'r graddau ei bod yn gwaethygu problemau o ran adnoddau ymhellach.

<u>Adnoddau</u>

3.174. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai hynny nad oeddent o blaid y gostyngiad arfaethedig yn y ffi o'r farn y bydd yr ACLl wedi gwario adnoddau yn darparu'r adroddiad ar yr effaith leol, ac er mwyn adennill costau, y dylai gael y ffi o hyd.

3.175. Nododd rhai ymatebwyr a oedd o blaid y ddarpariaeth hon hefyd y bydd yn cymryd amser i'r ACLlau weld gwelliannau o ran capasiti a gallu, hyd yn oed o ystyried y gallu i adennill costau wrth bennu ffioedd, o ystyried yr hanes o danariannu.

Y rhesymau dros oedi

3.176. Roedd rhai o'r ymatebwyr nad oeddent o blaid y ffi is a gynigiwyd o'r farn na fyddai modd rhagweld achos o oedi wrth gyflwyno cais neu lle mae'r awdurdod yn dibynnu ar wybodaeth gan gyrff statudol eraill i lywio'r adroddiad ar yr effaith leol. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y gall fod rheswm da pam y byddai cyfnod byr o oedi yn arwain at adroddiad ar yr effaith leol a oedd yn cynnwys mwy o wybodaeth ddefnyddiol, a allai fod o fudd i'r broses.

Arall

3.177. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys y canlynol:

- Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y dylai'r cynigion fod yn gymesur â graddfa a chymhlethdod y cynnig. Er mwyn cyflawni hyn, gallai'r ACLl gytuno ar y cyfnod amser â'r datblygwr yn ystod y cam cyn gwneud cais neu gytuno ar estyniad i'r amser pan fo angen.
- Nododd ymatebion eraill hefyd yr angen i fonitro perfformiad.

| **C26** | A ydych yn cytuno y dylai CNC gael ffi benodedig am baratoi Adroddiad o'r Effaith ar y Môr? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 1 | 3 | 11 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 1 | 1 | 5 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 1 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 2 | 0 | 6 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 2 | 1 | 5 | 11 |

| Cyfanswm yr holl ymatebwyr | 12 | 7 | 6 | 47 | 72 |
|---|---|---|---|---|---|

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **19** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **76%** | **24%** |

Themâu allweddol

3.178. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 26 fel a ganlyn:

- Nid ymatebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn.
- Nododd y rhai hynny nad oeddent o blaid ffi benodedig y dylai lefel y ffi fod yn gymesur â maint a graddfa'r prosiect.
- Roedd y rhai hynny a oedd o blaid ffi o'r farn bod y gwaith yn 'safonedig' ac felly'n briodol ar gyfer ffi benodedig.

Ffi benodedig

3.179. Roedd y rhai hynny a oedd o blaid ffi o'r farn bod y gwaith yn 'safonedig' ac felly'n briodol ar gyfer ffi benodedig, heb achos cryf o blaid amrywio ffi safonol. Nododd un corff proffesiynol y dylai'r adroddiad fod yn ffeithiol, gan osgoi barnau neu ddadleuon a'i fod felly yn addas ar gyfer ffi benodedig. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod lefel y ffi yn rhy isel, neu y dylid ei phennu ar lefelau adennill costau.

3.180. Yn yr un modd â'r cwestiwn ar yr adroddiad ar yr effaith leol, nododd rhai ymatebwyr mewn achosion eithriadol lle y cytunir eu bod yn fwy cymhleth, y gall fod achos o blaid codi ffioedd uwch, yn seiliedig ar baramedrau y cytunwyd arnynt.

Ffi amrywiadwy

3.181. Roedd amrywiaeth o sectorau o blaid ffi amrywiadwy. Roedd pob ACLl o blaid y dull hwn, felly hefyd nifer o fusnesau. Roedd y rhai a oedd o blaid y dull gweithredu hwn o'r farn bod angen adlewyrchu lefelau cymhlethdod cais. Nid yw CNC yn cytuno bod ffi benodedig yn briodol ar gyfer llunio Adroddiad o'r Effaith ar y Môr, ac nid ydym yn cytuno ychwaith y dylid talu'r ffi i PEDW. Rydym o'r farn ei bod hi'n hanfodol sicrhau y gellir adennill costau llawn holl weithgareddau CNC o dan y Ddeddf. Yn ogystal, rydym o'r farn bod y ffi a ddyfynnwyd, sef £10,322, yn isel o ystyried nifer yr oriau sydd eu hangen i

gyflawni'r gwaith ac na fydd yn dod yn agos at gynnig gwasanaeth sy'n adennill costau.

Arall

3.182. Roedd ymatebion eraill yn ystyried sut y dylid talu'r ffi ac adroddiadau ar berfformiad.

| **C27** | A ydych yn cytuno y dylai CNC gael llai o daliad neu ddim taliad, os na fydd yn cyflwyno'r Adroddiad o'r Effaith ar y Môr o fewn y terfyn amser ac yn unol â'r gofynion sylfaenol? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 7 | 1 | 3 | 8 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 0 | 4 | 3 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 1 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 2 | 0 | 5 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 1 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 4 | 1 | 0 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **16** | **4** | **9** | **43** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **20** | **9** |
| **Canran Gyffredinol** | **69%** | **31%** |

Themâu allweddol

3.183. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 27 fel a ganlyn:

- Ni ddarparodd 58% ateb i'r cwestiwn, ac ni ddarparodd 18% arall unrhyw resymeg bellach dros eu hymateb.
- Mae'r rhai hynny a oedd o blaid ad-daliad o'r farn y byddai'n cymell perfformiad ac yn sicrhau bod partïon yn atebol.
- Roedd y rhai hynny nad oeddent o blaid y cynigion o'r farn y dylai'r ffioedd adlewyrchu cost y gwaith a wnaed ac na ddylid cyflwyno unrhyw gosbau.

<u>Ad-daliad</u>

3.184. Mae'r rhai hynny a oedd o blaid ad-daliad o'r farn y byddai'n cymell perfformiad ac yn sicrhau bod partïon yn atebol.

<u>Adnoddau</u>

3.185. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai hynny nad oeddent o blaid y gostyngiad arfaethedig yn y ffi o'r farn y bydd CNC wedi gwario adnoddau yn darparu'r adroddiad ar yr effaith leol, ac er mwyn adennill costau, y dylai gael y ffi o hyd. Nododd CNC ei fod yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gael llai o daliad neu ddim taliad os na fydd yr Adroddiad o'r Effaith ar y Môr yn cael ei gyflwyno o fewn y terfyn amser ac yn unol â'r gofynion sylfaenol. Nid yw o'r farn bod hyn yn gyfystyr ag adennill costau llawn ac y byddai, yn y pen draw, yn cael effaith andwyol ar argaeledd adnoddau i gefnogi prosiectau yn y dyfodol. Mae'n cynnig system fonitro.

| **C28** | A ydych yn cytuno na ddylai'r ceisydd gael ad-daliad llawn os yw ei gais yn annilys? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfan swm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 3 | 9 | 1 | 6 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 2 | 0 | 2 | 9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 3 | 0 | 4 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 0 | 0 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 4 | 1 | 0 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **16** | **16** | **1** | **39** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **32** | **1** |
| **Canran Gyffredinol** | **97%** | **3%** |

Themâu allweddol

3.186. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 28 fel a ganlyn:

- Nid ymatebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn
- O blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, dim ond un nad oedd o'r farn bod y cynnig am ad-daliad rhannol yn briodol.

Y cyfle i gywiro

3.187. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi'r cyfle i geisyddion ymdrin ag unrhyw faterion neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gywiro eu cais cyn datgan bod cais yn annilys a chyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch ad-daliad.

Adnoddau

3.188. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn os bydd cais gan geisydd yn annilys, y bydd PEDW wedi treulio amser yn bwrw golwg dros y cais. Dylid talu am yr adnodd hwn drwy'r ffi gwneud cais.

3.189. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi ad-daliad llawn lle caiff materion neu ofynion newydd eu codi, nad ymdriniwyd â nhw neu na chawsant eu trafod yn flaenorol yn ystod y cam gwneud cais ac sydd felly y tu hwnt i reolaeth y ceisydd.

Arall

3.190. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn lle y caiff cais ei ailgyflwyno, y dylai'r costau adlewyrchu'r ffi gychwynnol a wariwyd am gais.

| **C29** | A ydych yn cytuno y dylai ffioedd gael eu talu fesul cam neu y dylid talu un ffi gychwynnol am gais ac os bydd yn costio llai i brosesu'r cais, y caiff y swm hwn ei ad-dalu? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 1 | 9 | 2 | 7 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 0 | 4 | 0 | 5 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 2 | 0 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 3 | 0 | 5 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 0 | 3 | 2 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **2** | **22** | **4** | **44** | **72** |

| | **Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau)** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **24** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **86%** | **14%** |

Themâu allweddol

3.191. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 29 fel a ganlyn:

- Nid atebodd 61% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y cwestiwn.
- Nododd y rhai hynny a oedd o blaid taliadau fesul cam y gall ffioedd fod yn ddrud i ddatblygwyr, felly dylai bod modd talu fesul cam. Ystyriwyd y byddai hyn yn osgoi unrhyw achosion diangen o ordalu a gwaith gweinyddol diangen ac y byddai'n sicrhau dull cytûn o ran yr hyn y dylai pob parti ei gyflawni, yn ogystal â lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi system ad-daliadau ar waith.
- Roedd y rhai hynny a oedd o blaid ffi unigol o'r farn y dylid talu'r ffi er mwyn talu costau a oedd yn codi ar ddechrau'r broses, ac y dylid rhoi system syml ar waith ar gyfer ad-dalu ffioedd nas gwariwyd.
- Roedd ymatebion eraill o'r farn na ddylai'r ffi gwneud penderfyniad fod yn rhan o'r costau ar gyfer cais.

| C24 – C29 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Ffi benodedig
Cafwyd nifer o ymatebion gwahanol mewn perthynas â defnyddio ffioedd penodedig ar gyfer adroddiadau ar yr effaith leol ac adroddiadau o'r effaith ar y môr. Roedd y safbwyntiau hyn a fynegwyd yn ymwneud â natur safonedig y gwaith o gymharu â'r potensial i geisiadau amrywio o ran eu cymhlethdod.

Ar yr adeg hon, rydym o'r farn er bod potensial i geisiadau amrywio o ran cymhlethdod, yn gyffredinol, y dylai'r gwaith sydd ei angen sicrhau bod y ffi a dalwyd yn cwmpasu'r costau. Fel y nodwyd gan ymatebydd, mae'r ffi benodedig yn ymwneud ag un rhan o'r broses, a chodir tâl ar rannau eraill o'r broses hefyd.

O ran lefel y ffi a delir ar gyfer y rhannau hyn, mae angen data i gefnogi lefel newydd y ffioedd, neu i gyfiawnhau pam nad yw'r costau penodedig, ar gyfartaledd, yn deg.

Ad-daliad
Rydym yn cydnabod y pryder y gall ad-dalu ffi gael effaith ar gorff y mae'n rhaid iddo ymgymryd â'r gwaith o hyd. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw system amgen i sicrhau atebolrwydd yn y broses. Byddai'r gallu i bennu amserlen benodol ar gyfer y rhannau hyn o'r broses yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd mewn perthynas â cheisiadau unigol a byddwn yn ystyried sut y gellid rhoi hynny ar waith.

Dilysu
Rydym yn cydnabod yr angen i allu ymdrin â materion, a lle bo'r materion hynny yn syml, bydd modd darparu'r wybodaeth sydd ar goll/y wybodaeth anghywir. Lle bydd angen amser i ddatrys mater, nid oes modd 'dal' cais hyd nes y caiff y data hyn eu darparu gan na fyddai hynny'n cefnogi cysondeb na thryloywder yn y broses gydsynio. O ystyried y gefnogaeth gref o blaid y cynnig hwn, ystyrir y byddai'r ad-daliad yn ystyried y costau a fyddai'n gysylltiedig â'r cam dilysu.

Ffi unigol
Cafwyd ymatebion cymysg ar y gwahanol ddulliau ar gyfer systemau ffioedd, naill ai ffi ar ddechrau'r broses, neu daliadau fesul cam. Ystyrir mai ffi unigol yw'r dull symlaf.

**Y camau nesaf**
Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion mewn perthynas â ffioedd fel y'u nodir yn y papur. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bellach i'r cynigion hyn yn ystod y cam gweithredu er mwyn penderfynu a ydynt yn effeithiol wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg.

Felly, byddwn yn ceisio cynnwys mesurau mewn is-ddeddfwriaeth a fydd yn golygu y gellir diwygio ffioedd yn gyflym i ystyried tystiolaeth newydd.

| **C30** | Ai'r awdurdod archwilio sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer archwiliad? Os na, pam ddim? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Nage** | **Ie (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nage** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 7 | 4 | 3 | 5 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 7 | 1 | 0 | 1 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 1 | 0 | 14 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 3 | 0 | 3 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 3 | 1 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **21** | **13** | **4** | **34** | **72** |

| | **Ie/Ie (yn amodol ar sylwadau)** | **Nage** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **34** | **4** |
| **Canran Gyffredinol** | **89%** | **11%** |

Themâu allweddol

3.192. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 30 fel a ganlyn:

- O blith y rhai hynny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno mai'r awdurdod archwilio sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer archwiliad.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r dull gweithredu o'r farn y dylai eraill fel y ceisydd ac ymgyngoreion statudol allu cyfrannu wrth ddewis y weithdrefn.
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r dull arfaethedig gan godi pryderon nad oedd y broses yn ddemocrataidd ac am anghysondebau posibl rhwng ceisiadau.

<u>Trosolwg</u>

3.193. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion polisi. Cafwyd y sylwadau canlynol gan y rhai hynny a oedd yn cytuno:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r ceisydd allu cyflwyno ei safbwyntiau o ran y weithdrefn archwilio a ddewiswyd ac roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn y dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i eraill fel ymgyngoreion statudol.
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn y dylid llunio rhagdybiaeth o blaid gwrandawiad ar gyfer pob elfen o'r archwiliad fel man cychwyn.
- Soniodd rhai ymatebwyr fod angen cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer pennu'r weithdrefn archwilio.
- Cafwyd sylwadau nad oes angen y cyfarfod i bennu'r weithdrefn.

3.194. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r dull polisi arfaethedig gan nodi y byddai'r broses yn annemocrataidd, ac y dylid trafod y weithdrefn arfaethedig a chytuno arni â'r ceisydd yn ystod y cam cyn gwneud cais. Cododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno hefyd bryderon am geisiadau yn cael eu trin yn wahanol ac am anghysondebau yn y broses mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer archwiliadau.

3.195. Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol am y broses archwilio hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys ceisiadau am ganllawiau ychwanegol ar faterion penodol fel sut y caiff yr awdurdod archwilio ei bennu, rôl ymgyngoreion a'u mewnbwn i'r broses archwilio, cyfarfodydd rhithwir, rôl PEDW yn y broses archwilio, gwrandawiadau llawr agored, beth a gaiff ei gynnwys yn hysbysiad y weithdrefn a'r cyflwyniadau ysgrifenedig.

3.196. Cafwyd sylwadau cyffredinol eraill mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â'r angen am eglurder o ran achosion lle byddai'r person penodedig yn gwrthod cais am wrandawiadau llawr agored pan fo materion y tu hwnt i gylch gwaith yr archwiliad, gan anghytuno â'r

ffafriaeth o blaid digwyddiadau archwilio rhithwir ac ar rolau PEDW a Gweinidogion Cymru yn y broses.

| C30 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion i'r awdurdod archwilio bennu'r weithdrefn ar gyfer archwilio cais am gydsyniad seilwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y sylwadau ar y ffaith y dylai rhanddeiliaid eraill allu cyfrannu wrth ddewis y weithdrefn. I'r perwyl hwn, o ran ymgyngoreion statudol, bydd dyletswydd ar ymgyngoreion statudol, yn yr is-ddeddfwriaeth, i ddynodi eu dewis o ran y weithdrefn archwilio fel rhan o'u hymateb i gais a gyflwynwyd. Rydym yn cytuno nad yw cyfarfod o bosibl yn ychwanegu gwerth at y broses ac rydym wedi ei ddileu.

O ran ceisyddion, cydnabyddir y byddai'r materion i'w trafod fel rhan o'r cyflwyniadau yn ymdrin â nifer o feysydd ac na fydd ganddynt o bosibl unrhyw ffafriaeth o ran y weithdrefn archwilio a ddewisir. Felly, byddwn yn dynodi mewn canllawiau y gall y ceisydd roi ei farn o ran pa weithdrefn archwilio i'w dewis fel rhan o gais a gyflwynir. Mae adran 42(7) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn dynodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi meini prawf wrth benderfynu ar y weithdrefn archwilio. Felly, bydd canllawiau yn egluro sut y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y cyflwyniadau hynny gan ymgyngoreion statudol, y ceisydd ac eraill wrth bennu'r weithdrefn archwilio fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith.

O ran y materion eraill a godwyd o dan y cwestiwn hwn, bydd yr is-ddeddfwriaeth yn nodi'n glir sut y caiff y weithdrefn archwilio ei phennu a'r broses archwilio ehangach, gan gynnwys amserlenni. Pan fydd angen eglurhad ar faterion penodol, caiff hynny ei nodi mewn canllawiau gweithdrefnol ategol.

| C31 | A yw deg neu fwy o geisiadau yn nifer priodol i weithredu gofyniad i gynnal o leiaf un gwrandawiad llawr agored yn ystod archwiliad? Os nad ydych yn cytuno, nodwch faint o geisiadau a fyddai'n briodol? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydy | Ydy (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydy | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 2 | 1 | 6 | 10 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 1 | 1 | 2 | 9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 0 | 1 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 1 | 0 | 7 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **11** | **7** | **10** | **44** | **72** |

| | Ydy/Ydy (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydy |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **18** | **10** |
| **Canran Gyffredinol** | **64%** | **36%** |

Themâu allweddol

3.197. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 31 fel a ganlyn:

- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn hwn.
- O blith y rhai hynny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod deg cais neu fwy yn nifer sbardun priodol ar gyfer cynnal gwrandawiad llawr agored.
- Rhoddodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno amrywiaeth o resymau pam nad oeddent o'r farn bod nifer sbardun o ddeg cais yn nifer priodol.

Trosolwg

3.198. O blith y rhai hynny a oedd yn cytuno â'r cynigion polisi, awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru gael mwy o reolaeth o ran pryd y byddai gwrandawiad llawr agored yn cael ei gynnal, gan ystyried lefel diddordeb y gymuned a natur y cais.

3.199. Rhoddodd y rhai hynny a oedd yn anghytuno bod deg cais yn nifer sbardun priodol y rhesymau canlynol, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod nifer y ceisiadau yn amhriodol gyda rhai o'r farn bod deg cais yn rhy uchel, ac y byddai dim ond un cais yn nifer sbardun priodol. Ond nododd rhai ymatebwyr y dylai'r nifer sbardun fod yn nifer uwch o geisiadau.

- Nododd rhai ymatebwyr y byddai gwneud penderfyniad i gynnal gwrandawiad llawr agored yn seiliedig ar nifer y ceisiadau a gafwyd yn arwain at broblemau o ran tegwch.
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn fod nifer y ceisiadau yn fympwyol ac nad oes cyfiawnhad amlwg drosto.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r penderfyniad i gynnal gwrandawiad llawr agored fod yn seiliedig ar y rhesymeg drosto ac y dylid gwneud pob penderfyniad ar sail yr achos unigol. Nododd yr ymatebion hyn fod angen i'r awdurdod archwilio arfer disgresiwn dros gynnal gwrandawiadau llawr agored.

| C31 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Rydym yn cydnabod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a'r amrywiaeth o safbwyntiau mewn perthynas â'r trothwy ar gyfer cynnal gwrandawiad llawr agored. O ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, byddwn yn nodi mewn is-ddeddfwriaeth mai'r trothwy ar gyfer gweithredu'r gofyniad i gynnal gwrandawiad llawr agored fydd un person.<br><br>Caiff canllawiau gweithdrefnol ategol eu paratoi er mwyn egluro'r ffordd fwyaf effeithiol i randdeiliaid ymateb i gais a gyflwynwyd, gan gynnwys eglurhad ynghylch y gwahanol weithdrefnau. Bydd hyn yn cynnwys gwrandawiadau llawr agored a sut y gallai cynrychioliadau ysgrifenedig fod yn llwybr mwy priodol mewn rhai achosion er mwyn gallu cyflwyno sylwadau manwl ar gynllun. | |

| C32 | Yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn adran 60(2) a 62(3) o'r Ddeddf, pwy ddylai Gweinidogion Cymru eu hysbysu am benderfyniad ynglŷn â chydsyniad seilwaith a'r rhesymau dros y penderfyniad? |
|---|---|

Themâu allweddol

3.200. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 32 fel a ganlyn:

- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn.
- O blith y rhai hynny a ymatebodd, argymhellodd y rhan fwyaf ohonynt y dylai'r holl ymgyngoreion statudol ac unrhyw bartïon â diddordeb neu'r rhai hynny a oedd wedi cyflwyno cynrychioliadau ar y cais gael eu hysbysu am benderfyniad ynglŷn â chydsyniad seilwaith.
- Argymhellodd rhai o'r ymatebwyr i'r cwestiwn amrywiaeth o ymgyngoreion eraill y dylid eu hysbysu.
- Rhoddodd rhai o'r ymatebwyr hefyd sylwadau am y dull i'w ddefnyddio i hysbysu am benderfyniad ynglŷn â chydsyniad seilwaith.

Trosolwg

3.201. Nid oedd gan fwy na hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad unrhyw sylwadau i'w gwneud am bwy y dylid eu hysbysu am benderfyniad. O blith y rhai a ymatebodd, argymhellwyd ymgyngoreion ychwanegol a nodir isod. Er eu bod yn fodlon ar y dull, roedd gan nifer bach ohonynt rai ymholiadau am y broses gwneud penderfyniadau yn gyffredinol ac argymhellodd nifer bach arall o ymatebwyr ddulliau ar gyfer hysbysu unigolion am y penderfyniad. Nodir hyn isod.

*Y rhai hynny y dylid eu hysbysu am benderfyniad*

3.202. Roedd rhai ymatebwyr yn fodlon ar y partïon a nodwyd gan sôn y byddai'r Rheoliadau yn cyfeirio at bersonau ychwanegol y byddai'n briodol eu hysbysu, ym marn Gweinidogion Cymru. Argymhellodd nifer o'r ymatebwyr gyrff ac unigolion gwahanol y dylid eu hysbysu, yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Pawb yng Nghymru.
- Y Senedd.
- Pob ymgynghorai statudol / anstatudol.
- ACLlau perthnasol a chyfagos.
- Unrhyw un yr ymgynghorwyd ag ef mewn perthynas â'r cais.
- Unrhyw un a wnaeth gynrychioliadau yn ystod y broses neu a fu'n rhan o'r archwiliad.
- Yr holl bobl leol.
- Y wasg genedlaethol.
- CADW ac asiantaethau/sefydliadau amgylchedd hanesyddol eraill.
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Cynghorau Cymuned a Thref.
- Cyd-bwyllgorau perthnasol.
- Comisiwn Dylunio Cymru.
- Rheoleiddwyr cydsyniadau tybiedig neu gydsyniadau a ddilëwyd/diddymwyd yn y dyfodol.
- CNC.

*Dulliau hysbysu*

3.203. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr argymhellion o ran sut y dylai'r broses hysbysu ddigwydd. Argymhellodd unigolyn o'r categori sector eraill y dylid cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd ac ar y safle pan fyddai wedi ei gymeradwyo. Roedd yr ymatebydd hwn ac ymatebydd arall o'r categori sector busnesau hefyd o'r farn y dylid diweddaru gwefannau Gweinidogion Cymru a'r gwefannau a gynhelir gan y ceisydd/ hyrwyddwr gan nodi'r penderfyniad. Yn yr un modd, roedd ymatebydd o'r categori sector eraill o'r

farn y dylid cyhoeddi'r penderfyniad ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar borth cynllunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Sylwadau eraill*

3.204. Cafwyd sylwadau cyffredinol eraill mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Ceisiadau i asiantaethau amgylchedd hanesyddol gan gynnwys CADW a Chynghorau Cymuned ddod yn ymgyngoreion statudol.
- Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch camau yn y broses gwneud penderfyniadau, er enghraifft bod yr amserlenni sy'n gysylltiedig â phob cam o'r archwiliad a'r cyfnod dilysrwydd ar gyfer Cydsyniadau Seilwaith yn rhy fyr.
- Gofynnwyd am eglurder o ran yr amgylchiadau ar gyfer pennu a fyddai penderfyniad ar gais yn cael ei wneud gan awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru ac ai Gweinidogion Cymru fyddai'n gwneud penderfyniadau ar bob cais am Gydsyniad Seilwaith ar gyfer llinellau uwchben 132kV.
- Gwnaeth unigolyn o'r categori sector eraill sylwadau hefyd yn nodi nad oedd y broses Adolygiad Barnwrol ar gyfer y gyfundrefn yn glir ac felly y byddai canllawiau neu eglurder yn ddefnyddiol. Byddai canllawiau fel sail i broses gwneud penderfyniadau Gweinidogion a'u proses ar gyfer asesu newidiadau sylweddol hefyd yn ddefnyddiol.

| C32 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
| --- | --- |
| Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr amrywiaeth eang o awgrymiadau a wnaed o ran pwy y dylid ei hysbysu am benderfyniad ynglŷn â chydsyniad seilwaith a'r rhesymau dros y penderfyniad. Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys pa bobl y dylid eu hysbysu am benderfyniad, gan geisio sicrhau y caiff gwybodaeth ei darparu i bartïon â diddordeb heb osod baich diangen ar y broses gydsynio. Nid ydym o'r farn y gellid rhoi'r holl gynigion ar waith gan y byddai hynny'n anghymesur. Fodd bynnag, byddai'r cynigion i sicrhau bod cofnod o'r penderfyniad a'r rhesymau ar gael i'r cyhoedd yn golygu y byddai modd i unrhyw barti weld y dogfennau hyn.<br><br>O ran materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn, mae'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniad a'r broses ar gyfer Adolygiad Barnwrol wedi'u nodi yn y Ddeddf. Caiff materion fel pwy fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau, a'r broses ar gyfer asesu newidiadau sylweddol eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a'u hategu gan ganllawiau. | |

| C33 | A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut i gysoni prosesau presennol Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol â'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith? |
| --- | --- |

Themâu allweddol

3.205. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 33 fel a ganlyn:

- Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb i'r cais am awgrymiadau ynglŷn â sut i gysoni prosesau presennol Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) â'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith. Nid oedd nifer o'r sylwadau eraill a wnaed yn ymdrin â'r cwestiwn hwn, ond yn hytrach, roeddent yn cynnig sylwadau ehangach am AEA.
- Gwnaeth nifer cyfyngedig o bobl awgrymiadau ynglŷn â chysoni prosesau presennol AEA â'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith.
- Yr angen am ddarpariaethau trosiannol clir ar gyfer y gyfundrefn newydd, a'r trefniadau ar gyfer cydlynu'r ddwy gyfundrefn a fydd ar waith.
- Dylid rhoi ystyriaeth tymor hir i Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol.

Trosolwg

*Trefniadau trosiannol*

3.206. Cyflwynodd tri datblygwr sylwadau ar yr angen am drefniadau trosiannol clir. Fel rhan o hyn, roedd angen i brosiectau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac sydd wedi cymryd camau i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau o dan un gyfres o reoliadau AEA allu symud ymlaen o hyd, yn ddidrafferth, o dan y gyfundrefn AEA sy'n berthnasol i brosiectau sy'n mynd rhagddynt o dan Ddeddf 2024. Nododd un datblygwr y byddai trosglwyddo gwaith presennol yn atal achosion o ddyblygu ac yn rhoi tawelwch meddwl i geiswyr sydd wedi dechrau AEA o dan y broses gydsynio bresennol berthnasol.

*Cyfranogiad ymgyngoreion statudol*

3.207. Nododd dau ddatblygwr, dau ACLl a nifer o ymatebwyr eraill yr angen i ymgyngoreion sy'n rhan o'r broses ymgymryd â gwaith ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid. Fel rhan o'r sylwadau hyn, nodwyd y cam sgrinio a'r cam cwmpasu, a nododd ymgeisydd arall y byddai'r broses ymgynghori cyn gwneud cais yn rhan ddefnyddiol o'r datrysiad dylunio iteraidd i ymdrin â materion/effeithiau amgylcheddol a nodwyd lle y bo'n bosibl cyn cyflwyno'r cais am brosiect seilwaith arwyddocaol.

*Digideiddio*

3.208. Roedd tri ymatebydd o blaid digideiddio'r broses AEA. Roeddent o'r farn y byddai'n golygu y gellid cyfnewid mwy o wybodaeth am ddatblygiadau a cheisiadau tebyg, y byddai'n helpu cyrff gweinyddu cyhoeddus a

chymunedau lleol i ymgysylltu, ac y byddai'n cyflymu'r broses gydsynio gyfan.

*Sylwadau eraill*

3.209. Cafwyd sylwadau cyffredinol mewn perthynas â'r canlynol:

- Yr angen am ganllawiau ar y broses.
- Yr angen i sicrhau bod adnoddau ar gael.
- Yr angen i sicrhau cysondeb â chyfundrefnau eraill.

| C33 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r trefniadau trosiannol o gyfundrefnau cydsynio presennol i'r broses o dan y Ddeddf. Mae AEA yn broses ar wahân, ac ystyrir y byddai gwybodaeth a ddarparwyd cyn rhoi'r Ddeddf ar waith yn parhau'n ddilys ar yr amod bod y prosiect yn parhau yr un fath.

Mae gan ymgyngoreion statudol ran bwysig i'w chwarae yn y broses gydsynio, a byddai hyn yn cynnwys AEA. Byddwn yn ystyried sut y gellir atgyfnerthu cyfranogiad mewn perthynas ag AEA fel rhan o'r broses.

Cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn gofyn am wybodaeth ac eglurhad ychwanegol mewn perthynas â'r gyfundrefn ar gyfer Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol. Mae Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol yn broses ar wahân, ac nid yw'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r broses hon yn rhan o'r gyfundrefn hon. Bydd angen i ystyriaethau o'r darpariaethau trosiannol ac ystyriaethau o sgiliau ac ati fod yn rhan o unrhyw becyn gweithredu ar gyfer Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol.

Gellir ymdrin â nifer o'r materion a godwyd mewn perthynas â'r trefniadau gweithredu, fel cysondeb, adnoddau, darpariaethau trosiannol, mewn canllawiau.

**Y camau nesaf**

Bydd y dull arfaethedig ar gyfer AEA yn parhau. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bellach i sut y gellir defnyddio canllawiau i ymdrin â'r materion a nodir uchod er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu clir a chyson.

| C34 | A ydych yn cytuno â'r dull o ddiwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith a nodwyd? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar** | **Nac ydw** | **Ddim yn** | **Cyfan swm** |

| | | | sylwadau pellach) | | gwybo d | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 2 | 6 | 3 | 8 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 2 | 1 | 3 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 1 | 1 | 13 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 2 | 2 | 0 | 5 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 1 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 4 | 2 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **10** | **16** | **8** | **38** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **26** | **8** |
| **Canran Gyffredinol** | **76%** | **24%** |

Themâu allweddol

3.210. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 34 fel a ganlyn:

- Eglurhad a pharamedrau clir o ran ystyr diwygiad ansylweddol a diwygiad sylweddol.
- Mae angen mwy o fanylion am y broses gyffredinol er mwyn hwyluso dealltwriaeth.
- Mae angen ystyried yr amserlenni arfaethedig ymhellach.

Trosolwg

3.211. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig polisi yn gyffredinol, gyda thri chwarter o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cytuno â'r dull ar gyfer diwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith.

3.212. Er eu bod yn cytuno, ni wnaeth sawl ymatebydd unrhyw sylwadau ategol i nodi pam roeddent yn cytuno, ond, o blith y rhai a wnaeth sylwadau, codwyd y themâu canlynol:

*Amserlenni*

3.213. Nododd tri Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio y dylai'r amserlen ar gyfer cywiro gwallau fod wedi'i dynodi mewn deddfwriaeth ac awgrymwyd y gallai cyfnod o 6 wythnos fod yn addas.

3.214. Nododd Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio arall hefyd fod y cyfnod arfaethedig o 24 wythnos ar gyfer gwneud penderfyniad mewn perthynas â diwygiadau sylweddol yn rhy hir ac y dylid ei leihau i 16 wythnos.

3.215. Soniodd ACLl hefyd am y cyfnod arfaethedig ar gyfer cyflawni amodau, gan nodi bod y cyfnod arfaethedig o 8 wythnos yn rhy fyr, yn enwedig pan fydd datblygiad yn destun AEA. Awgrymodd yr ymatebydd hefyd na ddylai achos o fethu â gwneud penderfyniad o fewn yr amserlen fod yn achos tybiedig, ond yn hytrach y dylid caniatáu hawl i apelio.

*Gofynion archwilio*

3.216. Awgrymodd Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio lle y bydd diwygiad arfaethedig yn arwain at newid sylweddol i ddatblygiad, y dylai fod yn destun gwrandawiad. Gwnaed sylw tebyg gan ymatebydd arall, a awgrymodd lle bo'r cyhoedd o'r farn bod newid yn sylweddol, y dylid cynnal gwrandawiad.

*Eglurder ar faterion penodol*

3.217. Nododd ymatebwyr o sawl sector fod angen mwy o eglurder a chanllawiau ar y broses ar gyfer diwygio gorchymyn cydsynio, yn arbennig, ystyr diwygiad ansylweddol a diwygiad sylweddol, paramedrau clir ar gyfer terfynau gwyro o'r cynnig datblygu gwreiddiol a phwy y dylid ymgynghori â nhw wrth hysbysu partïon am ddiwygiad.

3.218. Yn ogystal â'r rhai hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig polisi, roedd rhai hefyd nad oeddent yn cytuno.

3.219. Nododd un Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio fod y cynigion yn rhy gyfyngol, yn enwedig pan fo angen newidiadau gan fod marchnadoedd neu amodau technolegol wedi newid yn ystod cyfnod y datblygiad. Adleisiwyd hyn gan ymatebydd arall a nododd fod angen mwy o hyblygrwydd a phroses symlach.

3.220. Roedd sawl ACLl hefyd yn gwrthwynebu, ar y sail bod yr amserlenni arfaethedig ar gyfer cyflawni amodau yn rhy fyr a bod diffyg cyswllt, yn ôl pob tebyg, rhwng y broses o wneud penderfyniad mewn perthynas â chydsyniad seilwaith a'r manylion a fyddai o bosibl wedyn yn cael eu pennu gan gorff arall (fel ACLl) y byddai ganddo o bosibl broblemau sylfaenol â'r manylion hynny a gyflwynwyd.

3.221. Cododd rhai ymatebwyr hefyd bryderon am yr amserlenni arfaethedig. Er enghraifft, roedd corff proffesiynol / grŵp â buddiant yn anghytuno â'r cynnig, gan nodi nad yw 28 diwrnod yn ddigon o amser i gymunedau ymateb i ddiwygiad i gynnig.

*Sylwadau eraill*

3.222. Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau penodol hefyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Efallai na fydd angen ymgynghori cyn gwneud cais os bydd ymgynghori pellach yn ofynnol ar ôl cyflwyno'r cais;
- Dim ond ar ôl cael cais am hynny y dylid bwrw ati i ddiwygio cydsyniadau, neu drwy gytundeb â'r ceisyddion;
- Dylai fod hyblygrwydd i amrywio cynlluniau drwy gymeradwyo amodau a chynllun rheoli, heb fod angen diwygio Gorchymyn;
- Dylid ystyried ffioedd i ACLlau neu gyrff eraill, lle y bo'n ofynnol iddynt ymgymryd â swyddogaeth benodol fel rhan o'r broses;
- Mae angen canllawiau pellach ar y broses gyfan er mwyn rhoi eglurder.

| **C34** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|

<u>Amserlenni</u>

Rydym yn cydnabod y bydd cyflwyno amserlen statudol ar gyfer cywiro gwallau yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ddatblygwyr a byddwn yn ystyried hyn wrth ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y cyfnod arfaethedig o 24 wythnos ar gyfer gwneud penderfyniad mewn perthynas â diwygiadau sylweddol yn gymesur. Mae sawl ffactor yn cyfrannu at hyn. Er enghraifft, gall fod angen cynnal archwiliad a gall fod angen rhagor o wybodaeth gan geisyddion neu gan y rhai hynny sydd wedi gwneud cynrychioliadau ar yr awdurdod archwilio.

O ran yr amserlenni ar gyfer cyflawni amodau, byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol ehangu'r cyfnod arfaethedig o 8 wythnos.

<u>Gofynion archwilio</u>

Rydym yn cytuno, o dan rai amgylchiadau, y gall fod yn angenrheidiol ac yn briodol cynnal archwiliad ar gyfer diwygiad sylweddol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y dylai fod yn ofyniad gorfodol ym mhob achos. Er enghraifft, mae'n bosibl mai dim ond mân ddiwygiad sylweddol y bydd cais yn ei gynnig ac na fydd unrhyw wrthwynebiadau i'r diwygiad hwnnw yn dilyn cyfnod cyhoeddusrwydd a hysbysu. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd archwiliad yn anghymesur ac yn arwain at achosion diangen o oedi i'r broses. Rydym o'r farn ei bod hi'n fwy priodol rhoi disgresiwn i'r awdurdod archwilio benderfynu a ddylid cynnal archwiliad mewn perthynas â diwygiad sylweddol arfaethedig.

Eglurder ar faterion penodol

O ran y materion eraill y tynnwyd sylw atynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ein bwriad yw ategu'r is-ddeddfwriaeth â chanllawiau cynhwysfawr er mwyn helpu i roi eglurder a rhagor o wybodaeth i'r rhai hynny sy'n cymryd rhan yn y broses gydsynio.

| **C35** | A ydych yn cytuno â'r dull o ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith a nodwyd? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw** | **Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 4 | 2 | 5 | 8 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 2 | 0 | 4 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 2 | 0 | 1 | 14 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 3 | 0 | 0 | 6 | 9 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 1 | 1 | 0 | 5 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 4 | 1 | 1 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **17** | **6** | **7** | **42** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **23** | **7** |
| **Canran Gyffredinol** | **77%** | **23%** |

Themâu allweddol

3.223. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 35 fel a ganlyn:
- Mae angen ystyried iawndal ariannol;
- Codwyd pryderon ynghylch dirymu unochrog a'r amserlenni cysylltiedig;
- Dylid diwygio'r weithdrefn i'w gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad.

Trosolwg

3.224. Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig polisi.

3.225. O blith y rhai hynny a oedd yn cytuno â'r cynigion, cafwyd sylwadau yn nodi y dylid bod canllawiau clir ar gyfer datblygiadau nad ydynt wedi'u gweithredu eto, neu lle mae'r gwaith arnynt wedi dirwyn i ben ac nad ydynt yn mynd rhagddynt. Gallai hyn ganiatáu dirymiad a chaniatáu i brosiectau eraill gael eu cyflwyno.

3.226. Roedd ymatebydd arall o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio hefyd yn cytuno, ond nododd y dylid bod darpariaethau ar waith ar gyfer iawndal ariannol. Yn yr un modd, awgrymodd ACLl y dylid ad-dalu unrhyw un y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â swyddogaeth benodol (fel cyhoeddusrwydd a hysbysu) am ei amser drwy ffi.

3.227. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd rhai nad oeddent yn cytuno ac a gododd bryderon.

3.228. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys gallu Gweinidogion Cymru i ddirymu cydsyniad o safbwynt unochrog gan y byddai'n creu ansicrwydd i ddatblygwyr a'r diffyg gofyniad i gynnal archwiliad lle byddai Gweinidogion Cymru yn dirymu cydsyniad o safbwynt unochrog.

3.229. Nododd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio hefyd y dylai fod cyfnod o 3 blynedd lle na châi dirymiadau eu caniatáu, er mwyn galluogi gwaith i ddechrau ar y safle gan fod yr amseroedd paratoi ar gyfer trefnu cyfarpar arbenigol ac ati yn aml yn hir.

| C35 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
| --- | --- |

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr o ran gallu Gweinidogion Cymru i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith o safbwynt unochrog, ond ein bwriad yw mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y câi pwerau o'r fath eu defnyddio, gyda manylion pellach yn cael eu darparu mewn canllawiau. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw drefniadau iawndal ariannol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol wrth ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth.

Lle y bo'n ofynnol i gorff penodol ymgymryd ag unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig â dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, rydym yn cytuno y dylai gael iawndal ariannol ar sail adennill costau a byddwn yn ceisio ymdrin â hyn fel rhan o'n cynigion ffioedd ar gyfer y broses gydsynio yn gyffredinol.

Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion i ddarparu'r pwerau sydd eu hangen i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, lle yr ystyrir bod angen gwneud hynny, a byddwn hefyd yn ategu'r broses â chanllawiau cynhwysfawr. Caiff yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad eu hystyried wrth ddatblygu'r broses ddirymu. Rydym hefyd yn bwriadu llunio canllawiau a fydd yn ategu'r is-ddeddfwriaeth ac yn rhoi rhagor o wybodaeth ac eglurder mewn perthynas â'r broses arfaethedig ar gyfer sut y gellir dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

| C36 | A ydych yn cytuno â'r weithdrefn a bennir ar gyfer penderfynu ar gais i gaffael yn orfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith neu wrth ddiwygio gorchymyn sy'n bodoli eisoes. Os nad ydych yn cytuno, sut y dylid diwygio'r weithdrefn? |
| --- | --- |

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfan swm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 3 | 5 | 1 | 10 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 0 | 0 | 6 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 1 | 1 | 0 | 15 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 1 | 3 | 0 | 5 | 9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 1 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 3 | 1 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **10** | **12** | **3** | **47** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **22** | **3** |
| **Canran Gyffredinol** | **88%** | **12%** |

Themâu allweddol

3.230. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 36 fel a ganlyn:

- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw ymateb i'r cwestiwn hwn. O blith y rhai hynny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynigion polisi.
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gydsyniad ar gyfer caffaeliad gorfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith. Wrth anghytuno, cafwyd sylwadau a oedd i bob pwrpas yn anghytuno â'r egwyddor o gaffael gorfodol yn gyffredinol a gofynnodd un ymatebydd i berchnogion tir gael chwarae rhan fwy amlwg yn y broses.

Trosolwg

3.231. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn cytuno â'r dull gweithredu hwn. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno sylwadau pellach yn gofyn am fwy o eglurder a chanllawiau ar faterion penodol. Er enghraifft, am y llyfr cyfeirio, mathau derbyniol o ddiogelwch mewn perthynas â dangos iawndal ar gyfer caffaeliadau gorfodol ac am ddiwygio gorchmynion cydsyniad seilwaith mewn perthynas â chaffaeliadau gorfodol.

3.232. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gaffaeliad gorfodol fel rhan o geisiadau am gydsyniad seilwaith. Gwnaeth yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno sylwadau a oedd i bob pwrpas yn anghytuno â'r egwyddor o gaffael gorfodol yn gyffredinol a gofynnodd un ymatebydd i berchnogion tir gael chwarae rhan fwy amlwg yn y broses.

3.233. Holodd rhai ymatebwyr a oedd angen proses archwilio ar wahân mewn perthynas â chaffaeliadau gorfodol. Roedd sylwadau eraill a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud â'r broses ar gyfer diwygio cais mewn perthynas â chaffaeliad gorfodol, gydag un ymatebydd yn nodi y dylai arwain at gyflwyno cais newydd.

| C36 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|

Cydnabyddir yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn a byddwn yn nodi manylion am y broses arfaethedig mewn canllawiau gweithdrefnol, gan gynnwys manylion am y gofynion ar gyfer y llyfr cyfeirio. Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion i nodi gweithdrefn mewn is-ddeddfwriaeth i wneud penderfyniad ar gais caffael gorfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith, wedi'i hategu gan ganllawiau gweithdrefnol.

O ran ymholiadau ynghylch proses archwilio ar wahân ar gyfer caffaeliadau gorfodol, er y bydd is-ddeddfwriaeth benodol ar y broses hon, bydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r gweithdrefnau archwilio cyffredinol a byddant yn gyd-gynhwysol. O ran diwygiadau i gais pan geir cais am gaffaeliad gorfodol, bydd y broses yn caniatáu i'r diwygiadau hynny gael eu hystyried yn llawn ac yn cynnig cyfleoedd i ymgynghori'n llawn â buddiannau tir perthnasol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad ar y cais.

| C37 | A ydych o'r farn y dylai gweithdrefn benodol gael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth o ran archwilio cais i gaffael yn orfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith? Os ydych, pa weithdrefn y dylid ei phennu? |
|---|---|

**Crynodeb Ystadegol**

| Sector | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 3 | 3 | 13 | 19 |
| B | Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 0 | 0 | 7 | 9 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 0 | 1 | 0 | 16 | 17 |
| D | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 0 | 3 | 1 | 5 | 9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 1 | 6 | 7 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 2 | 1 | 7 | 11 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **3** | **9** | **6** | **54** | **72** |

| | Ydw/Ydw (yn amodol ar sylwadau) | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebwyr a nododd ymateb** | **12** | **6** |
| **Canran Gyffredinol** | **67%** | **33%** |

Themâu allweddol a throsolwg

3.234. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 37 fel a ganlyn:

- Nid oedd gan dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr unrhyw ymateb i'r cwestiwn hwn;
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai gweithdrefn benodol gael ei nodi yn yr is-ddeddfwriaeth o ran archwilio cais i gaffael yn orfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith. Cafwyd rhai sylwadau pellach yn hyn o beth, yn awgrymu mai dim ond lle y bo angen y dylid darparu gweithdrefn fel rhan o'r is-ddeddfwriaeth ac yn gofyn hefyd am eglurder a / neu ganllawiau pellach ar faterion yn ymwneud â manylder;
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai gweithdrefn benodol gael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth o ran archwilio cais i gaffael yn orfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith;
- Roedd rhai sylwadau a oedd yn anghytuno neu a oedd yn gofyn am eglurhad o blaid darparu gwrandawiad ar wahân ar gyfer caffaeliadau gorfodol fel rhan o'r broses archwilio gyffredinol, yn hytrach na rhoi gweithdrefn benodol ar waith ar gyfer y maes hwn.

| C37 | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| O ran nodi gweithdrefn benodol ar gyfer archwilio cais i gaffael yn orfodol yn yr is-ddeddfwriaeth, bydd y weithdrefn honno yn gweithio ochr yn ochr â'r weithdrefn archwilio gyffredinol a byddent yn gyd-gynhwysol. Er enghraifft, gellid cynnal gwrandawiad ychwanegol ar gaffael yn orfodol fel rhan o'r broses o archwilio cais am gydsyniad seilwaith ac ni fyddai hyn yn rhan o archwiliad ar wahân. Fel arall, os bydd gwrandawiad manwl yn cael ei gynnal fel rhan o'r cais cyfan, mae'n bosibl y caiff caffael yn orfodol ei ystyried yn ystod y digwyddiad hwnnw. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod archwilio archwilio'r cais cyfan pan fydd cais i gaffael yn orfodol yn rhan ohono, ac yn osgoi achosion o ddyblygu prosesau. | |

| |
|---|
| Cynigir y dylid bwrw ati â'n cynigion i nodi gweithdrefn ar gyfer archwilio cais i gaffael yn orfodol mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd y weithdrefn hon yn gweithio ochr yn ochr â'r gweithdrefnau archwilio cyffredinol a ragnodir, a cheir eglurder pellach ar faterion manwl mewn canllawiau gweithdrefnol. |

Cwestiynau Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **C38** | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? |
| **C39** | Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

Trosolwg o Gwestiynau 38 a 39

3.235. Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiynau neu nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud.

3.236. O blith y rhai hynny a ymatebodd i'r cwestiynau, roedd cytundeb y dylai rhai dogfennau penodol fod ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn o ran a ddylai fod yn orfodol darparu dogfennaeth Gymraeg neu a ddylid annog hynny. Nododd un ymatebydd y dylai datblygwyr allu ateb cwestiynau yn Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn ffafriol.

| **C38 a C39** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Mewn ymateb i gwestiynau 38 a 39, rydym yn cytuno na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai pob rhanddeiliad allu cymryd rhan yn y broses gydsynio ar gyfer seilwaith yn ei ddewis iaith.<br><br>Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod hi'n fwy priodol a chymesur i roi manylion mewn canllawiau, yn hytrach na gorfodi'r gofynion o ran y Gymraeg mewn deddfwriaeth. Bydd hyn yn galluogi datblygwyr i deilwra eu gweithgareddau ar gyfer ymgysylltu â'r cymunedau a'r rhanddeiliaid y maent yn ymgynghori â nhw.<br><br>Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio canllawiau i sicrhau arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill wrth roi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith. | |

## ATODIAD A – RHESTR O'R YMATEBWYR YN ÔL CATEGORI

| **Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio** | | **ACLl** | |
|---|---|---|---|
| 013 | SP Energy Networks Holdings Ltd | 015 | CBS Caerffili |
| 021 | Grŵp Pŵer Cymru Cyfyngedig | 022 | Bannau Brycheiniog |
| 023 | ScottishPower Renewables | 041 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| 030 | Green GEN Cymru | 043 | Cyngor Dinas Casnewydd |
| 032 | Statkraft UK Ltd | 061 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| 042 | Lightsource Renewable Developments Ltd | 069 | Cyngor Sir Penfro |
| 048 | RWE | **Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant** | |
| 049 | Associated British Ports | 018 | Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| 050 | Bute Energy Limited | 036 | Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol Cymru |
| 055 | Wind2 | 040 | RenewableUK Cymru |
| 056 | Turley | 047 | Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 059 | Grasshopper Communications | 051 | Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru |
| 064 | Solar Energy UK | 063 | Energy UK |
| 067 | NATS | 071 | Y Sefydliad Acwsteg |
| **Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall** | | 072 | NIPA |
| 004 | Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn | **Arall** | |
| 005 | Natural England | 002 | David Hytch |
| 016 | Y Weinyddiaeth Amddiffyn | 025 | Panel Arbenigol Cymru Gyfan ar Lygredd |
| 020 | Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (enw masnachu'r Awdurdod Glo) | 039 | Ystad y Goron |
| 024 | Network Rail | 044 | Glandŵr Cymru – Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru |
| 028 | Cadw | 045 | Grŵp y Grid Cenedlaethol |
| 029 | Cyngor Cymuned Meifod | 046 | Centrica |
| 031 | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur | 057 | Dr Jonathan F Dean |
| 033 | Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) | 058 | Clive Goodridge |
| 060 | Ymddiriedolaeth y Theatrau | | |
| 068 | Trafnidiaeth Cymru | | |
| 070 | Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear | | |
| **Y Sector Gwirfoddol** | | | |
| 017 | Cymdeithas Mannau Agored | | |
| 019 | Un Llais Cymru | | |
| 034 | Grŵp Cymunedol Ardal Llanarthne | | |
| 053 | RSPB Cymru | | |
| 062 | Coed Cadw | | |

At ddibenion diogelu data, mae manylion enwau a chyfeiriadau'r ymatebwyr hynny nad oeddent am gael eu hadnabod wedi cael eu dileu o'r tabl uchod.